

ECO'R WYDDFA

Rhif 147

Mai 1989

20c

I GYHOEDDI EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990



Plant a ffrindiau'r Urdd, cylchoedd Dyffryn Nantlle ac Arfon yn gorymdeithio drwy strydoedd Caernarfon fore Sadwrn, Ebrill 22 i gychwyn wythnos o weithgareddau cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y flwyddyn nesaf.

UN O BRIF SGÏWYR Y FYDDIN



"Un o'n prif sgïwyr." Dyna sut, yn ddiweddar, y disgrifiodd y fyddin Marc Williams, milwr ifanc o Fethel.

Mae Marc, sy'n 21 oed, ar hyn o bryd yn gwasanaethu gyda Chatrawd Faes 19 o'r "Royal Artillery" yn Dortmund yng Ngorllewin yr Almaen. Bu'n llwyddiannus mewn sawl cystadleuaeth sgïo a bellach mae wedi ennill yr anrhydedd o gael cystadlu ym Mhencampwriaethau Alpaidd y Fyddin sydd i'w cynnal

OEDDECH CHI YNO?



Tybed a oeddech chi yn un o'r cannoedd a aeth i Borthmadog ar Ebrill y cyntaf i weld Nia, Priodferch y flwyddyn, a William Oliver yn priodi? Mwy o'r hanes a llun arall ar dudalen Penisarwaun (tud 6)

yn Les Menuires yn yr Alpau Ffrengig. Mae'n amlwg fod ei ddyfalbarhad ac oriau o ymarfer

Parhad ar Dudalen 20

HYNT A HELYNT PONTYDD

PONT DROS DRO YN Y BETWS BUDDUGOLIAETH I'R TRIGOLION



O ganlyniad i rym argyhoeddiad a dyfalbarhad trigolion Betws Garmon a'r cylch nid yw Cyngor Sir Gwynedd am gau'r briffordd, fel y bwriadwyd, er mwyn atgyfnerthu Pont y Betws. Yn hytrach, byddant yn codi pont dros Afon Gwyrfai a gaiff ei defnyddio tra pery gwaith trwsio yr hen bont. Pont dros dro fydd hon, wrth gwrs.

Gwnaed y penderfyniad gan y Cyngor Sir yn dilyn cyfarfod cyhoeddus ym Metws Garmon. Mynegodd y trigolion deimladau cryf iawn gan benderfynu y byddent yn ystyried gweithredu'n uniongyrchol i rwystro'r Cyngor Sir rhag mynd ymlaen â'u cynlluniau 'ansensitif'.

Dywedodd Cadeirydd y cyfarfod, Eurig Wyn: "Roedd teimladau cryfion iawn yn y dyffryn ac mae'n warthus na fuasai'r Cyngor Sir wedi gweld yn dda i drafod y mater gyda'r pentrefwyr cyn mynd ymlaen â'u cynlluniau. Buasai cau'r ffordd wedi effeithio

ar bawb yn yr ardal."

Cododd pobl y Betws fel un gwr pan orfodwyd hwy i ystyried oblygiadau cau'r briffordd. Pe baent angen mynd at y meddyg neu i'r siop yn y Waunfawr, er enghraifft, buasai'n rhaid teithio drwy Rhyd-ddu, Dros y Coed a Dyffryn Nantlle, ac yn ôl. A beth am y sefyllfa mewn achos o argyfwng? Faint o amser a gymerai ambiwlans neu'r frigâd dân i gyrraedd Betws? Dyma gwestiynau mae'n amlwg na roddodd y Cyngor Sir ystyriaeth iddynt cyn i'r cyfarfod cyhoeddus gael ei alw.

PONT CRAWIA AR GAU



Nos Lun, Ebrill 24ain, roedd gweithwyr y Cyngor Sir wrthi'n brysur yn gwyro trafndiaeth yng nghylch Llanrug. A'r rheswm? Darganfuwyd yn gynharach fod un o'r pileri cerrig sy'n dal bwa Pont Crawia wedi malu'n ei fôn, a bod perygl i'r bont dorri. Fel roedd yr 'Eco'n' mynd i'r Wasg, disgwyliid peirianwyr y Rheilffordd Brydeinig yno i archwilio'r bont, gan mai hwy yw'r perchnogion.

ECO'R WYDDFA

RHIF 147
MAI 1989

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhyallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhyallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOL: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir (871043)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn.

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr.

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEHEFIN 1
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MAI 23
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

Annwyl Ddarllenydd,

Wrth agosau at Wythnos
Cymorth Cristnogol arall (15-20
Mai), dymunaf ddiolch o galon i
bawb am eu cyfraniadau gwerth-
fawr tuag at gasgliadau 1988.

Mae staff Cymorth Cristnogol
yng Nghymru yn gwerthfawrogi
pob gwedd o gefnogaeth a ddan-
gosir, a gallwn eich sicrhau fod
eich cymorth ymarferol yn
galonogol wrth geisio cynorthwyo
ein partneriaid tramor yn eu hym-
drechion am decach byd gydag
amodau byd fydd yn deilwng
ohonom fel teulu dynol.

Bu cyfraniadau Cymru tuag at
Wythnos Cymorth Cristnogol y
llynedd yn hynod hael, gan inni
dderbyn dros £300,000.00

Wrth gydnabod eich haelioni yn
1988, 'rwy'n eich gwahodd i estyn
cymorth ac i ddangos yr un con-
syn eleni eto. Yn wir, gobeithio y
medrwyd roi ychwaneg gan fod yr
angen yn fawr iawn.

Y thema eleni yw - "Mae'n bryd
unioni'r cam", ac y mae Cymorth
Cristnogol gyda'n partneriaid yn
gweithio i unioni'r cam mewn
llawer gwlad.

Os gwelwch yn dda, helpwch
Gymorth Cristnogol i wneud yr
holl wahaniaeth i fywydau eraill
yn y gwledydd tlawd. Bydd eich
rhoddion yn fodd i roi gobaith
newydd i bobl sy'n cael eu gwas-
gu a'u gormesu, ac yn cael eu
rhwystro rhag byw bywyd
cyflawn. Felly, rhown yn hael er
mwyn ceisio unioni'r cam a wneir
â phobl eraill. Medrwyd roi i'ch
casglyddion lleol neu ddanfôn yn
uniongyrchol at: Swyddfa
Cymorth Cristnogol, Blwch Rhif
21, Caerdydd CF4 2DL.

Gyda llawer o ddiolch a phob
dymuniad da,

Yn ddiffuant iawn,
Wynn Vittle

CYFLE DARLLEDU I BOBL IFANC

Annwyl Olygydd,

Mae HTV Cymru yn awyddus
iawn i roi cyfle i bobl ifanc sydd â
diddordeb yn y maes darlledu fel
Cyflwynwyr, Cantorion, Digrifwyr,
Sgriptwyr, Grwpiau Pop/Roc, ac
yn y blaen.

O ddechrau Ebrill ymlaen bydd
swyddfa arbennig yn Yr
Wyddgrug i ddelio a phob ymholi-
ad. Os oes gan eich darllenwyr
diddordeb yn y maes fe fyddem
yn falch iawn o glywed oddi
wrthynt.

Yn gywir iawn

Idris Charles

Ymgynghorydd Rhaglenni

HEN LUNIAU O YSGOL Y WAUNFAWR

Annwyl Olygydd,

Diddorol oedd gweld yn rhifyn
mis Mawrth o'r Eco, ddau ddar-
lun o blant Ysgol y Waunfawr.

Y llun uchaf - dosbarth Mr T
Williams, Ty Gwyn:

(Rhes ôl) Humphrey Roberts, yna
ei frawd Robert Griffith Roberts;
Arthur Ellis; Robert Hugh Jones;
Richard Neville Owen; Iorwert h
Eurfyl Owen.

(Ail res) Lily Burslem; Alice May
Rowlands; Margretta Hughes;
Katie May Williams; Sally
Williams, Bendas; Maggie Lizzie
Griffith; Lena Hughes; Irene
Jones; Elizabeth May Jones.

(Rhes flaen) Nancy Roberts;
Nancy Hughes; Mimmie Griffith;
Eirian Barlow; Agnes Wyn
Jones; Elizabeth May Evans;
Madge Jones.

(Ar y blaen) Credaf mai Trevor
Griffith a Meirion Jones ydynt.
Tynnwyd y llun hwn yn nechrau
haf 1933.

Yr ail lun (a dynnwyd yn ddi-
weddarach): dosbarth Mr D R
Jones y Prifathro. Nid wyf yn
adnabod pawb sydd yma.

(Rhes ôl) Arthur Ellis; Garfield
Trevor; Clifford Pierce; Robert
Owen; Robert Griffith Roberts.

(Ail res) ? ; Lena Hughes
(chwaer Dafydd); Katie May
Jones; ? ; Dilys Jones; ? ;
Madge Jones; Maggie Lizzie
Griffith; Catherine Hughes;
Betty May Owen; Hilda May
Davies; Alice May Rowlands;
Elizabeth May Jones.

Yr eiddoch yn gywir

Elizabeth Edwards

(gynt o Ben y Bryn, Waunfawr,
yna o Waun Hywel,

Pontrhyallt)

Rhos y Waun

6 Saithaelwyd Park

Carmel

Treffynnon,

Clwyd CH8 7DQ

"SAFIAD"

Annwyl Olygydd,

Hoffwn atgoffa eich darllenwyr
bod rhifyn mis Mai o'r cylchgrawn
'SAFIAD' ar werth yn y siopau yn
awr. Yn y rhifyn diweddaraf yma
adroddir sut mae gwledydd eraill
y byd yn rheoli'r mewnlfiaid;
edrychir ar y ddeddf hiliaeth
mewn perthynas â'r Gymraeg;
ymateb i gynnwys Cynllun
Fframwaith Gwynedd ac edrych
ar achos Alwyn Pritchard.

Felly rhifyn llawn a diddorol
iawn a'i bris fel arfer yn fargen
am 50c.

Llawer o ddiolch

Yn gywir iawn

Glyn Tomos (Golygydd)

Pen y Bwlch, Dinoriwg, Caernarfon

TAI NEWYDD

Annwyl Olygydd,

Pa ddiben sydd yna mewn
adeiladu mwy o dai yn y Waen
Winau, Penisarwaun tra mae yno
rai yn barod, yn gwneud dim ond
sefyll yn weigion am un-mis-ar-
ddeg o'r flwyddyn?

Yn gywir,

John E Williams, Allt Riwth, Llanrug

MIRI AWST

Annwyl Olygydd,

Hoffwn dynu sylw eich darllenwyr
at wyliau Cymraeg a drefnir gan
CYD yn Nant Gwrtheyrn ym mis
Awst.

Cynhelir MIRI AWST ar Awst
19eg i'r 26ain yng Nghanolfan
laith Genedlaethol Nant
Gwrtheyrn. Fe'i trefnir gan CYD a
Nant Gwrtheyrn, ac fe'i gwelir fel
penllanw i weithgareddau CYD
yn ystod 1988-89.

Amcan Miri Awst yw darparu
gwylliau Cymraeg yn y Nant i
Gymry Cymraeg a dysgwyr, gan
anelu at gael o leiaf hanner y
bobl yn Gymry Cymraeg. Byddai
hynny'n creu awyrgylch naturiol
Gymraeg a fydd yn cynorthwyo
dysgwyr i ymdoddi yn y
gymdeithas Gymraeg ei hiaith.

Ymhlith gweithgareddau Miri
Awst y mae ymweliadau â llefydd
difyr yn y cylch fel Chwarel
Llechwedd, Ffesiniog a Sw
Fynydd Bae Colwyn, adloniant
amrywiol gyda'r nos, sgysiaid,
cerdded, merlota a thaith i Ynys
Enlli (os yw'r tywydd yn
caniatáu).

Bydd cyfleusterau gwersylla yn
ogystal â llefydd mewn dau res o
dai, a'r prisiau'n amrywio o £35 i
£170.

Credaf bod Miri Awst yn un o'r
gwylliau mwyaf cyffrous a
gwerthfawr a gynigir yng
Nghymru i Gymry Cymraeg yr haf
yma, ac fe fyddai'n talu i chi
gysylltu â mi cyn gynted ag sy'n
bosib yn y cyfeiriad uchod er
mwyn gofyn am ragor o
wybodaeth. Dewch yn fuan, 'does
dim llawer o lefydd ar ôl.

Yr eiddoch yn gywir,

Siôn Meredith

Adran y Gymraeg

Yr Hen Goleg, Aberystwyth

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

ANRHEGU'R ANTUR HUD A LLEDRITH

Robert John



Ar nos Sadwrn, Mehefin 3, bydd Robert John, Dewin o Fangor, yn cyflwyno rhaglen gyntaf yn y gyfres newydd, "Hud a Lledrith Robert John" ar S4C.

Yn enedigol o Cae Canol, Fachwen, ac wedi bod yn Ysgol Dinorwig ac Ysgol Brynrefail, Llanrug mae Robert yn byw ym Mangor ers deuddeng mlynedd.

Yn ystod y gyfres o chwe rhaglen bydd amryw o artistiaid eraill yn perfformio hud, lledrith ac adloniant ysgafn. Bydd y cynhyrchiad o dan ofal Richard Morris Jones a Chwmni Lleu o Gaernarfon.

Bydd Allison a Jennifer - dwy ferch i Robert yn ymuno ac ef ar ddwy raglen i gyflwyno Lledrith - maent wedi hen arfer â chynorthwyo eu tad ar y llwyfan.

Merched y Wawr yn cyflwyno anrheg i Antur Waunfawr

Ar hyn o bryd mae Antur Waunfawr yn paratoi fflat ar gyfer y bechgyn a'r merched sy'n aelodau o'r gymdeithas. Fe fydd rhai ohonynt yn dod i aros yn y fflat ym Mryn Pistyll cyn bo hir.

Mae'r lle yn cael ei ddodrefnu rwan, a rhan o'r trefnu yma ddigwyddodd Mawrth 22. Anrhegwyd Antur efo peiriant golchi ardderchog gan Bwyllgor Anabl Merched y Wawr Arfon, ac fe ddaeth cynrychiolaeth dda o'r pwyllgor yno dan arweiniad

Mrs Mair Roberts y llywydd. Derbyniwyd yr anrheg gyda diolch gan Gwynn Davies, Cadeirydd yr Antur, a gwahodwyd y merched i wledd a baratowyd gan Gill Brown efo cymorth Steffan, Michelle ac eraill.

Aethom o gwmpas i weld yr ardd sy'n llawn blodau, a'r tai gwydrau sy'n llawn o blanhigion i'w gwerthu. Cawsom bnawn braf a hapus ym mysg ein gilydd.

Arddangosfa Arbennig ar Gyfer y Deillion a'r Rhannol Ddall

Mai/Mehefin

Cynhelir arddangosfa o ddarluniau a cherfluniau yn arbennig ar gyfer y deillion a'r rhannol ddall yng Ngogledd Cymru.

Teitl yr arddangosfa yw 'Darluniau a Cherfluniau i'w Cyffwrdd', ac mae'n cynnwys 43 o ddarluniau, 'collages' a cherfluniau. Cynhyrchwyd pob un o'r darluniau yn neilltuoel i'r arddangosfa, ac mae amryw ohonynt yn rhai tri dimensiwn - y paent wedi ei adeiladu fesul haen i greu effaith tirlun. Dangosir yr arddangosfa yn Oriel Plas Glyn y Weddw yn Llanbedrog ger Pwllheli. Bydd catalog a gwybodaeth mewn breil a llythrennau brâs hefyd ar gael.

Y mae'r holl waith yn yr arddangosfa gan Gaynor Edwards - arlunydd, cerflunydd a ffermwr o Ystrad yng Nghwm Rhondda.

Dechreuodd Gaynor greu ar gyfer y deillion a'r rhannol ddall rhyw dair blynedd yn ôl. Y mae wedi cynnal arddangosfeydd arbennig o'i gwaith ar gyfer y deillion a'r rhannol ddall yn

Abertawe a Chwmbran.

Cyflwyno'r arddangosfa yn Oriel Plas Glyn y Weddw yn Llanbedrog am bythefnos, o ddydd Sul Mai 28 i ddydd Sul, Mehefin 11.

Y mae Oriel Plas Glyn y Weddw yn agor saith diwrnod bob wythnos. Bydd yr arlunydd yn yr Oriel bob dydd rhwng dydd Sul, Mai 28 i ddydd Sul, Mehefin 4 i gwrdd ag ymwelwyr.

Pabell Lân Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau

Ymhlith y gweithgareddau yn y Babell Lân yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst eleni bydd nifer o raglenni nodwedd yn ymwneud â Dyffryn Conwy.

Elin Mair a luniodd y rhaglen a gyflwynir gan y Pwyllgor Cerdd Dant yn dwyn yr enw "O Ben yr Allt . . ." Canolbwyntir ynddi ar feridd y fro a'u cân i Ddyffryn Conwy.

Bydd gan y Pwyllgor Adrodd hefyd raglen o lenyddiaeth y fro wedi ei dethol gan Robin Gwyndaf, a'r Pwyllgor Alawon Gwerin raglen gan Gwilym Morris, Llanefydd.

Llwyfennir nifer o raglenni teyrnged: i T Glynne Davies dan ofal yr Athro Bedwyr Lewis Jones; i R E Jones gan Gymdeithas Barddas; i Richie Thomas gan Walter Glyn Davies, Amlwch ac i Idwal Jones gan ei gyfaill Dafydd Parry. Bydd hefyd sesiynau gan Gymdeithas Llafar Gwlad a sefydlwyd gan Myrddin ap Dafydd a John Owen Hughes.

Traddodir y Ddarlith Lenyddol eleni gan y Dr Gruffydd Aled Williams, ar y testun "Dyffryn Conwy a'r Dadeni"; darlith Cymru Heddiw gan Ioan Bowen Rees, a'r Ddarlith Wyddonol gan

Dr Gareth Wyn Jones: ei destun - Planhigion dan bwysau.

Ceir darlithoedd hefyd gan Hywel Teifi Edwards ar Gwilym Cowlyd a Gerald Morgan ar Argraffwyr Llanrwst.

* * *

Adnewyddir hen arferiad ym Mhrifwyl Dyffryn Conwy eleni pan gaiff cynulleidfâ'r Babell Lân gyfle i groesawu'r ddau brifardd a'r prif lenor i'w plith yn syth ar ôl y seremonïau.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf y drefn fu eu tywys o'r llwyfan i'w cyfweld gan y cyfryngau. Eleni y cyrchfan cyntaf fydd y Babell Lân - am ychydig funudau cyn i Ymryson y Beirdd ddechrau.

Ar y dydd Gwener y mae'n fwriad i wahodd rhyw bedwar neu bump o feirdd buddugol yr Wyl i'r Babell Lân i ddarllen peth o'u gwaith, gan gynnwys eu cerddi arobryn yn Llanrwst. Yr amcan yw rhoi mwy o sylw a bri i feirdd sy'n cystadlu yn y Brifwyl.

Aeth un gystadleuaeth ar goll yn yr Adran Alawon Gwerin ym Mhrifwyl Dyffryn Conwy eleni. Megis yng Nghasnewydd y llynedd y mae yno gystadleuaeth canu baled wreiddiol gyfoes ar alaw newydd neu un draddodiadol. Rhywfodd neu'i gilydd fe anghofwyd ei chynnwys yn y Rhestr Testunau. Ond mae gennych ddigon o amser i fynd ati i gyfansoddi.

Erbyn y dydd cyntaf o Orffennaf y mae angen copi o'r faled yn llaw'r Trefnydd yn Llanrwst. Cynigir gwobr o £40.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

PLAID CYMRU: Enillwyr Clwb Cant mis Ionawr oedd: £10: Mrs Gwen Griffiths, Fron; £8.50: Mrs H M Roberts, Ty'r Ysgol, Dinorwig. Mis Chwefror: £10: Mr Iorwerth Roberts, 8 Hafod Oleu; £8.50: Mr Charles Jones, 14 Pentre Helen. Mis Mawrth: £10: Mrs Alice Griffith, Tan Bwlch, Dinorwig; £8.50: Mrs Nest Efans, Afon Goch.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ebrill 3ydd dan arweiniad Mrs Eirlys Lloyd Jones, y Llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a chroesawodd y gwr gwadd, sef y Parch Gwynfor Williams, Llanberis. Cawsom noson ddiffr gan Mr Williams yn dangos i ni sut i achub bywydau. Diolchwyd iddo gan Mrs Marian Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Alwen Jones a Miss Eileen Williams ac enillwyd y raffl gan Mrs Beryl Hughes. Anfonwyd cydymdeimlad at Mrs Glenys Williams, y trysorydd, ar golli ei gwr. Croesawyd dwy aelod newydd sef Mrs Joan Parry a Mrs Elisabeth Haslet.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 8fed pryd y bydd y VCO yn sôn am y Cyfarfod Cyffredinol sydd i'w gynnal yn Llundain ym mis Mehefin.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod y mis ar Ebrill 17eg dan lywyddiaeth y llywydd, Mrs Buddug Jones. Pleser oedd cael croesawu Miss Gwen Aaron, Rhiwlas atom. Cawsom noson ddiffr iawn yn gwrando arni yn dweud ei hanes ar ei gwyliau yn Periw. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Iona Richards, a'r baned gan Mrs Nest Efans a Iona Richards.

Mr Hughie Jones fydd yn ein diddori ar Fai 15fed. Diolchwyd i Miss Gwen Aaron gan Mrs Iona Richards.

CLWB ELIDIR: Cafwyd cyfarfod o'r uchod ar 21ain o Fawrth pryd y cafwyd anerchiad diffr iawn ar y testun 'O Lwyfan i Lwyfan' gan Mr Robert Parry o Gaernarfon, a diolchwyd iddo gan Mrs Jane Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Mary Morris, Mrs Jane Jones, Mrs

Laura Williams a Mrs Dolly Brown. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Jane Jones gan Mrs Jennie E Williams. Llongyfarchwyd Mrs Ellen Williams ar ei phen-blwydd yn 88 oed. Mae'n dal yn aelod ffyddlon o'r Clwb ac yn bresennol yn yr holl gyfarfodydd. Dymunwyd yn dda i Mrs O R Williams ar ei dychwelriad o'r ysbyty gan obeithio y cawn ei chwmni yn fuan iawn.

Cafwyd cyfarfod arall ar y 4ydd o Ebrill pan y treuliwyd y prynhawn yn chwarae gemau. Rhoddwyd y te gan Mrs Alwen Jones, Mrs Jennie Williams, Mrs Jane E Hughes a Mrs Mair Lewis a diolchwyd iddynt gan Mrs Jane Jones. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Jane E Hughes gan Mrs Alwen Jones. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Annie M Morris a Mrs Idwen Thomas.

CANLYNIADAU

EISTEDDFOD SIR YR URDD YSGOL GWAUN GYNFI

Arlunio dan 8 oed: 3. Shaun Jones; Modelu 3D dan 12 oed: 3. Shaun Davies; Brodwaith dan 8 oed: 1. Helen Clare; Gwau dan 8 oed: 1. Alaw Mari Hughes; Gwaith Llwyfan

Unawd Alaw Werin dan 12 oed: 3. Lyndsey V Parry; Côr Grwp 3 dan 12 oed: 2. Côr Hannah.

Y SEINDORF: Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am fis Ebrill: £20: Meirion Jones, Minafon, Clwt-y-bont; £15: Miss Vashti Ward, Ty'n y Fawnog, Dinorwig; £10: Mrs Menna Wyn Jones, Llanrug.

DIOLCH: Dymuna Mrs Gwen Griffith a'r teulu, Fron, ddatgan eu diolchgarwch cywiraf i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a estynwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad a thaid oedd mor annwyl ganddynt. Diolch arbennig am yr arian dderbyniwyd tuag at Gapel Horeb (B) Garndolbenmaen.

MARWOLAETH: Dydd Llun y Pasg, yn frawychus o sydyn, bu farw Mr John Elwyn Williams, Ty'n y Clwt, yn 58 oed.

Magwyd John yn Ffordd Gam a phan yn 18 oed gadawodd y pentref i ymuno â'r Fyddin ond pan yn 20 oed ymunodd â'r Llynges

PLAS ERYR



Fel y cofiwch bu Plas Eryr yn amlwg yn y rhifyn diwethaf o'r Eco gyda hanes cyfarfod anrhegu Dr Marren ar ei hymddeoliad fel meddyg olaf i gynnal meddygfa ynddo. O holi yn yr Archifdy ymddenys i Plas Eryr gael ei godi rhywdro rhwng 1862-1874. Y meddyg cyntaf a gofnodir yn 1874 oedd Dr Griffith Williams Roberts, yn cael ei ddilyn gan Dr John Roberts a adnabyddir fel Dr Castell. Y mae'r rhestr yn gyflawn fel â ganlyn yn dilyn y ddau a enwyd eisoes, sef: D R Evans, Leslie Alexander Drake, Eric Henry Allen, Dr John Griffith, Dr J P Marren, Dr Noreen Marren, Dr Dempsey a Dr Nora Marren. Sylwer ar y llun a dynwyd o flaen Plas Eryr, llun o Dr John Roberts neu Dr Castell. Ai ei wraig sydd yn eistedd? A phwy yw'r dyn sydd yn dal yr eog? Hefyd beth yw cysylltiad Castell â'r Dr John Roberts? Os gall rhywun ein goleuo ar y cwestiynau a nodwyd, anfonwch air i'r Eco. Diolchwn i Dafydd Orwig am fenthg y llun.

Fasnach fel peiriannydd, lle y gweithiodd ei ffordd i fyny i'r swydd o fod yn Bennaeth Arolygydd Peirianyddiaeth. Wedi gwaeldd bu rhaid iddo ymddeol a dychwelodd ef a'i wraig, Glenys, yn ôl i'r pentref ac ymgartrefu yn Ty'n y Clwt, bum mlynedd yn ôl.

Buan iawn y sefydlodd ei hun yn ôl yn y gymuned ac roedd yn uchel ei barch gan bawb, fel y daeth hyn yn amlwg yn yr Eglwys pan welwyd y lle dan ei sang.

Cynhaliwyd y cynhebrwng yn Eglwys Llandinorwig, Sadwrn, Ebrill 1af. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch D Noel Jones, Deon Arfon a'r Parch Tegid Roberts. Yr organyddes oedd Mrs Jennie Williams, Dinorwig.

Y cludwyr oedd Leonard Parry, Geraint Parry, John Wyn Owen, Michael Jones, Eric Wyn Pritchard ac Eifion Pritchard. Trefnwyd y cynhebrwng gan Mr Myrddin Pritchard, Llanberis.

DIOLCH: Dymuna Mrs Glenys Williams a'i mab Glyn, ddiolch i'r holl deulu, ffrindiau a chymdogion

am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gwr a thad annwyl, sef Mr John Elwyn Williams, Ty'n y Clwt.

MARWOLAETH: Dydd Mercher, 8 Mawrth, bu farw Mrs Katie Walter Jones, Caernarfon, gynt o Ddeiniolen, gweddwr diweddar Ganon Walter Jones, Eglwys Llandinorwig, yn 88 mlwydd oed. Merch oedd i'r diweddar Mr a Mrs S Griffith, Ty Mawr, Clwt y bont. Cyn ei phriodas bu'n aelod ffyddlon a diwyd yn Eglwys Ebeneser, yn neilltuol felly yn y Gobeithlu gyda'r ieuencid. Fe'i hapwyntiwyd yn Brifathrawes Ysgol y Babanod, Deiniolen ym 1934, a bu'n llenwi'r swydd honno i'r ymylon am lawer blwyddyn. Mae cenedlaethau o blant Deiniolen yn ddyledus iddi hi a'i chyd-athrawon am roddi cychwyn iddynt yn eu hamrywiol alwedigaethau. Cadwodd ddiddordeb yn Deiniolen a Chlwt y bont gydol y blynyddoedd wedi iddi symud i Gaernarfon.

Gwasanaethwyd yn Eglwys Llandinorwig ar ddydd ei hangladd gan y Canon Hywyn Jones a'i briod Parch. Valerie Jones, Porthmadog; Deon Erwyd Edwards, Bangor; Canon R Glyndwr Williams, Porthaethwy a Deon Gwlad Arfon y Parch. D Noel James.

CANOLFAN GYMDEITHASOL: Cynhelir cyfarfod blynyddol y Ganolfan nos Fercher, 10fed o Fai am 7.00 a hynny yn y ganolfan. Mae hwn yn gyfarfod pwysig i bob cymdeithas a mudiad o fewn y pentref, er mwyn cael barn pawb ar sut y mae'r ganolfan yn cael ei rhedeg a'r defnydd sydd yn cael ei wneud ohoni. Felly cofiwch ddod draw i'r cyfarfod blynyddol er mwyn lleisio eich barn.

Bistro

43-45 STRYD
FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 871781



CURIAD CALON CYMRU

hefyd yn ystod y dydd

Bistro Bach

Y MAES
CAERNARFON
Ffôn: 3075



CURIAD CALON CYMRU

**OSMOND SHAW
DEINIOLEN**

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
GWASANAETH
FFON 24AWR
LLANBERIS 870545

CYNGOR EGLWYSI: Nos Iau Cablyd, 23 Mawrth, gweinyddwyd y Cymun Sanctaidd yn Festri Disgwylfa, gan y Parch John Pritchard, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch Ifor Williams. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn Festri Ysgoldy ar 10 Ebrill, dan arweiniad y Parch Ifor Williams, treuliwyd orig ddifyr yn gwrando darlleniadau o'r Beibl Cymraeg Newydd.

Estynir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau arbennig sydd i'w cynnal yn Festri Ebeneser am saith o'r gloch, nos Lun, 8 Mai i lansiio Wythnos Cymorth Cristnogol, 1989. Gwneir casgliad o dy i dy yn ystod yr wythnos 15 i 20 Mai, a dymuna'r Cyngor ddiolch ymlaen llaw am gefnogaeth arferol y pentrefwyr.

APÊL LLEOL EISTEDDFOD YR URDD 1990

Am yr ail flwyddyn yn olynol bu aelodau'r Pwyllgor Apêl uchod yn brysur yn darparu ar gyfer cystadleuaeth 'Brenhines y Bryniau', a gynhaliwyd eleni eto ym Mhlas Glynllifon, ar Sadwrn, 8 Ebrill.

Seren y diwrnod i'r llu ieuenticid oedd yng Nglynllifon ar y diwrnod oedd Owain Gwilym, 'Jabas', a gafodd bnawn caled yn llofnodi posteri ohono ei hunan, a gyflwynwyd yn garedig i'r Pwyllgor Apêl gan Gwmni S4C. Roedd stondinau o bob math yno, bwrlwm o brysurdeb ar bob llaw, a neuadd fawr y Plas yn orlawn o ieuenticid yn mwynhau eu hunain.

Roedd trefniadau ar gyfer yr amrywiol gystadlaethau yng ngofal Mr Edward Morris Jones, Llandegfan, ac er cymaint y ffwdanu wrth baratoi a gwisgo cyn disgyn i lawr grisiau'r Plas i gystadlu, fe lwyddodd i gadw trefn rhagorol, a chymod hapus rhwng y cystadleuwyr.

Rymond Williams, Talysarn, ar y piano, Catrin Gwyn, Cwm y Glo ar y delyn, a Paul Hughes, Mynydd Llandegai gyda'i gornet fu'n difyr'u'r dyrfa gydol y diwrnod. Roedd cyfraniadau'r tri hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan y dyrfa, fel y tystiwyd yn amlwg gan y gymeradwyaeth i eitem ar ôl eitem.

Bu'r Pwyllgor Apêl yn ffortunos iawn i gael Panel o Feirniaid a

wnaeth waith mawr am yn agos i saith awr tra bu'r cystadlu yn mynd ymlaen. Roedd gofyn am ymroddiad llwyr i wneud tegwch â'r 178 a fu'n ymgiprys am y gwobrau, ac mae'r Pwyllgor yn dra dyledus iddynt am gyflawni'r gwaith cystal, fel bod pob cystadleuydd yn mynd gartref wedi'i fodloni gyda'u dyfarniadau. Dyma'r Panel Beirniaid a fu'n geithio'n ddygn: Mr a Mrs W J Eames, Llanwnda; Mr a Mrs Hefin Williams, Rhiwlas; Mr a Mrs B Stanton, Prestatyn; 'Jabas'; Cyng Mrs Betty Williams, Talysarn; Mrs M B Hughes, Ffilmiau Eryri; Mrs M Kearns, Rhyll; Miss Clair Louise Podmore, Le Gat Ballet School.

Gwelwch oddi wrth enwau'r budugol isod fod cystadleuwyr o bob rhan o Ogledd Cymru wedi tyrru i'r gystadleuaeth, ac yma eto mae'r Pwyllgor Apêl yn ddiolchgar iawn iddynt hwythau am eu cefnogaeth. Dyma'r buddugol: Brenhines y Bryniau - hyn: Kelly Williams, Abergele; Brenhines y Bryniau - iau: Kelly Tarran, Cei Connah; 'Petal': Heather Louise Parry, Morfa Nefyn; 'Rhosyn': Sarah Terran, Cei Connah; 'Tywysoges': Donna Jones, Morfa Nefyn; 'Tywysog': David Friedhoff, Pwllheli; Brenhines hyn: Lisa Hayes, Bwcle; Brenhines iau: Anna Marie Roberts, Caernarfon; 'Morwyn': Claire Roberts, Porthaethwy; 'Miss Cutie': Kimberley Tatum, Cei Connah; 'Miss Personoliaeth': Zara Baynes, Saltney; Brenhines a'i Gosgordd: Brenhines Alison, Pwllheli.

Yn wyneb llwyddiant y gystadleuaeth, a'r elw sylweddol a wnaed er chwyddo'r Apêl Leol, bydd y Pwyllgor yn amcanu cystadleuaeth arall yn gynnar yn Ebrill 1990.

**NOSON GOFFI
yn y Ganolfan
DEINIOLEN
Nos Wenen, Mai 12fed
am 6.30 pm
Yr elw tuag at y
Seindorf**

GŴYL GYHOEDDI EISTEDDFOD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON



Aelodau o'r Urdd, Adran Ysgol Gwaun Gynfi cyn dechrau gorymdeithio o amgylch Caernarfon ddydd Sadwrn, Ebrill 22ain.

Cynhyrchiad Cyntaf 'Dalier Sylw'

Bydd DALIER SYLW yn cyflwyno eu cynhyrchiad cyntaf 'Adar Heb Adenydd' gan Edward Thomas yn ystod misoedd Mai/Mehefin eleni, ac yn teithio i ganolfannau ledled Cymru.

Ffurfiwyd DALIER SYLW ym Medi 1988. Mae'n gwmni sy'n rhoi pwyslais arbennig ar yr angen i ddatblygu gwaith newydd gan ddramodwyr profiadol a dibrofiad, yn yr iaith Gymraeg fel sylfaen i theatr y dyfodol, ac ar y BROSES o weithio gydag awduron.

Yn ystod y misoedd cyntaf, bu'r cwmni yn cynnal gweithdai gyda dau awdur - Edward Thomas a John Glyn Owen - i ddatblygu sgriptiau a syniadau newydd. Yn ystod y gweithdai, roedd cyfle i arbrofi gydag arddull, ffurf a deialog gyda chefnogaeth actorion a chyfarwyddwyr; cyfnod a oedd yn fuddiol nid yn unig i'r awduron a'r sgript, ond hefyd a roddodd gyfle i actorion (rhai nad oeddynt wedi cael cyfle i weithio yn y theatr Gymraeg ers talwm) i arbrofi

fel perfformwyr.

Comisiynwyd y ddau awdur i ysgrifennu drama newydd ar gyfer DALIER SYLW.

Y cast i 'Adar Heb Adenydd' fydd Sharon Morgan, Catherine Tregenna, Richard Lynch, Wyndham Price, Gareth Morris a Russel Gomer.

Lleolir y ddrama ger gorsaf rheilffordd yn Ne Cymru, ble mae milwr, priodferch, bachgen a merch ifanc, a dyn tiwnio piano yn bodoli mewn byd o freud-dwydion. Byd sy'n hagr a hardd, ble mae dychymyg ffantasiol yn cyd-redeg â realaeth creulon. Un peth sy'n clymu'r cymeriadau at ei gilydd - ceisio rhyddid mewn byd lle mae'r wladwriaeth yn rheoli ac yn llunio patrwm eu bywydau.

Stori yw am gariad, chwerthin a chelwydd, wedi ei chyflwyno mewn arddull fywiog a chyffrous.

Yn ystod y daith, mae gwahoddiad i awduron ymuno â DALIER SYLW ar gyfer gweithdai agored yng Nghaernarfon, Yr Wyddgrug a Chaerdydd. Ceir cyfle i drafod neu arbrofi gyda deialog ac arddull mewn awyrgylch cyfeillgar.

Mae John Glyn Owen yn frodor o Ynys Môn, ond sydd bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

Perfformir y ddrama 'Adar Heb Adenydd' yn Theatr Seilo, Caernarfon ar nos Wener a nos Sadwrn, Mehefin 2 a 3.

**Mae angen
DOSBARTHWR
ECO'R WYDDFA
yn Neiniolen**

Cysyllter ag Arwyn Roberts
(Caernarfon 5510)

**Am wledd flasu
dewch at
Gwyndaf a Ceris
Williams**

**SIOP
SGLODION
BETHEL
CHIP SHOP**

**Archebwch
dros y ffôn!
Portdinorwig 670963
Cartref 670170**

**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR,
LLANRUG**
Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

**Ffôn:
Caernarfon 2989
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)**

**Am wasanaeth fframio
cyflawn - LLUNIAU
TYSTYSGRIFAU,
TAPESTRI:-
ELWYN PRITCHARD
Fframiwr Lluniau/
Telynau Gwynedd
Parc Padarn
LLANBERIS
870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch
cartref os dymunwch**

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN-Y-COED: Sefydlwyd cymdeithas o "Gyfeillion Ysgol Tan-y-Coed", sy'n agored i unrhyw un sydd yn ffrind i'r ysgol. Prit amcan y Gymdeithas fydd trefnu gweithgareddau i godi arian at Gronfa'r Ysgol. Y swyddogion am y flwyddyn gyntaf fydd Eifion Harding, Cadeirydd; Myfanwy Parry, Ysgrifennydd; Alan Crawshaw, Trysorydd, ynghyd â Jenny Fletcher a Bronwen Hill yn Swyddogion Cyhoeddusrwydd.

URDD - ADRAN BENTREF: Llongyfarchiadau i Owen Turner am ennill y 3edd wobwr am ei waith llaw yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Cwm Gwendraeth.

Nos Iau, Mai 4ydd byddwn yn cynnal Mabolgampau a bydd y cyntaf a'r ail ymhob cystadleuaeth yn mynd ymlaen i gymryd rhan ym Mabolgampau'r Cylch yn Ysgol Syr Hugh Owen nos Fercher, Mai 17 (neu nos Wener, Mai 19 os bydd y tywydd yn ddrwg). Bydd stondin yn gwerthu cwn poeth, oren a.y.y.b.

CAPEL BOSRA: Pnawn Sul, Ebrill 16 am 2.00 pm gyda'r Parch Erfyl Blainey a Mr Hefin Williams, Caernarfon yn gweinyddu, derbyniwyd 16 o bobl ifanc yr Ysgol Sul Undebol yn gyflawn aelodau o Eglwys Iesu Grist. Cyflwynwyd copi o'r Beibl Cymraeg Newydd wedi'i arwyddo gan y Gweinidog a'r Arolygwr, Mr Evie Jones, i bob un ohonynt fel gwerthfawrogiad o'u ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Mawr hyderir y byddant yr un mor ffyddlon i Eglwys Crist i'r dyfodol. Pob bendith i bob un ohonynt.

YSGOL SUL: Bydd aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan mewn dwy Gymanfa eto eleni ar Ebrill 30. Yn y pnawn yng Nghymanfa'r Annibynnwyr a chyda'r nos yng Nghymanfa'r Methodistiaid yn Llanfairfechan. Y thema eleni yw Dilynwyd Crist. Trenfir bws i'r ddwy Gymanfa.

Diolchir i Eric Jones a Beryl Jones am gludo'r bechgyn fu'n chwarae pêl-droed pump bob ochr yn Chwaraeon Ysgolion Sul Arfon ym Mangor yn ddiweddar. Mawr ein diolch hefyd i'r rhieni a gludodd y plant i Gymanfa'r Ifanc yn Salem, Caernarfon.

PROFEDIGAETH: Ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Eluned Jones, Cae Corniog a Mrs Elinor Williams, Bryn Rhydd ar golli perthynas agos a hithau ond ifanc iawn.

GWELLHAD: Adferiad iechyd buan i'r canlynol wedi triniaeth yn yr ysbyty: Owen Thomas, Nathan Jones, Nellie Roberts, Mary Jane Roberts ac Aled Jones. Ac i chwithau sy'n teimlo'n sâl, brysiwch wella i gyd.

DYMUNIADAU DA: Pob dymuniad da i Nia a William Oliver yn eu cartref newydd yn Livingstone, Caeredin.

POB DYMUNIAD DA hefyd i Berwyn Paterson sydd wedi

dechrau ei yrfa yn Awyrlu Heathrow.

DIOLCH: Dymuna Aled Jones, 17 Bryntirion, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar ôl ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna rhieni yr 16 o aelodau'r Ysgol Sul a dderbyniwyd yn gyflawn aelodau o Eglwys Crist, ddatgan eu diolchgarwch i'r Parch Erfyl Blainey am y gwasanaeth hyfryd ac i athrawon yr Ysgol Sul am eu cyflwyniad o'r Beibl Cymraeg Newydd i bob un ohonynt.

PWYLLGOR NEUADD: Mae dydd "Budd Baw Buwch" yn dynesu. Rhyddheir Blacan i'r cae ym Mherthi bnawn Sadwrn, Mai 20fed am 1.00 o'r gloch. Bydd stondinau yn gwerthu cwn poeth a diod rhag ofn y bydd "oedi mawr" a'r tywydd yn oer. Gobeithio fod y blychau wedi'u gwerthu i gyd - dim ond 50c yr un ydynt am wobwr o £25 ynghyd â'r Baw (os dymunir).

Enillwyr Clwb Cant Mawrth oedd 1. Elinor Williams, Bryn Rhydd; 2. Delyth Roberts, Llanberis; 3. Marian Griffith, Dinorwig. Tynnir Clwb Cant Ebrill mewn Pwyllgor Mai 2il a Chlwb Cant Mai, pnawn Sadwrn, Mai 20fed.

YR EISTEDDFOD BENTREF: Cynhelir yr Eisteddfod Bentref eleni ar Fehefin 23ain yng Nghapel Glascoed. Bydd y testunau hyd at 12 oed yn gyfyngedig i blant Ysgol Gynradd Pensiaraun a'r testunau yn adran y pensynwyr yn rhydd i drigolion Penisarwaun yn unig. Bydd y cystadlaethau o 12 oed hyd at oed pensynwyr yn agored i'r byd, felly beth am berswadio eich cyfeillion yn ardaloedd eraill Bro'r Eco i ymuno â ni yn hwyl ein heisteddfod eleni.

Cynhelir Ffair Wanwyn yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, 18fed o Fai am 6.30 i godi arian tuag at yr Eisteddfod. Bydd yno stondinau teisenau, bwydydd, teganau ac ati, raffl, tombola a phaned o de neu goffi a diod oren i'r plant.

Buasai aelodau'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn am unrhyw rod-dion neu nwyddau i'w gwerthu ar y noson. Mae swyddogion y pwyllgor yr un rhai â'r llynedd. Llywydd ac Is-lywydd: Nancy Jones ac Ann Jones; Trysoryddion: Eirlys Williams a Pat Jones; Ysgrifennydd ac Is-ysgrifennydd: Nant Roberts a Ceren Jones.

Edrychwn ymlaen at Eisteddfod lwyddiannus eto eleni a gobeithir y bydd y rhestr testunau ar gael cyn bo hir.

PRIODASFERCH Y FLWYDDYN: Do, fe wenodd yr haul yn dyner ar fodrwy Nia a William bnawn Sadwrn, Ebrill 1af. Bu prysurdeb mawr yn Nhawelfa o tua 6.00 y bore gyda Teresa Fairminer yn coluro, Trevor Sorbie yn trin gwallt a Jane Packer yn trefnu'r blodau. Roedd tyrfa dda wedi ymgynnull i



Yr un ar bymtheg a dderbyniwyd yn gyflawn aelodau yng Nghapel Bosra, bnawn Sul, Ebrill 16eg: Eurgain Haf; Bedwyr Evans; Dilwyn Jones; Dyfed Jones; Marc Porter; Jonathan Richardson; Kenneth Richardson; Sioned Roberts; Siôn Roberts; Dylan Price Williams; Iola Williams; Ceirion Williams; Rhian Williams; Sioned Williams; Dylan Pierce Williams a Susan Williams.



Nia a William Oliver yng Ngwesty Portmeirion.

weld Nia, ei morynion, macwyaid a'i rhieni yn gadael mewn dau Rôls gwyn. Cyrhaeddodd Nia a'i thad orsaf Porthmadog yn y trênfach 'Prince', ac yna ei chludo fel brenhines mewn cert agored yn cael ei dynnu gan ddau geffyl gwyn hardd. Roedd Capel Salem yn orlawn a strydoedd Port yn ferw o ffrindiau yn croesaawu Priodasferch y Flwyddyn, un sydd a'i theulu yn hannu o'r dref. Gweinyddwyd y gwsanaeth gan y Parch Dewi Morris, y delynores oedd Mair Bebb Jones a'r organyddes oedd Mrs Maureen Elis.

Ymhlith y gwahoddedigion oedd Selina Scott a Jeff Banks, cyflwynwyr y rhaglen 'The Clothes Show'. Lluniwyd ei gwisg briodas odidog o liw hufen gan Catherine Walker o'r Chelsea Design Company a lluniwyd gwisg William gan Taylor Ferguson, Glasgow. Addurnwyd y capel gan Janice Land. Bu'r Brecwast Priodas yng Ngwesty Portmeirion. Bu'n ddiwrnod bythgofiadwy i'r ddau deulu.

Dymuniadau gorau i Nia a William Oliver a phob hapusrwydd i'r dyfodol.

DYMUNA Nia a William Oliver ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

CYDNABOD: Dymuna Robert Owen, Cae Corniog, ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar ddathlu ei benblwydd yn 90 oed.

LLONGYFARCHIADAU: Pob bendith i Glyn a Pat Mowll a Norman a Carol Jones ar achlysur

eu priodas.

CLWB YR HEULWEN: Cafwyd Cyfarfod Blynyddol o'r Clwb bnawn Mawrth, Ebrill 18. Fe ail-etholwyd y swyddogion, Ysgrifennydd: Mary Davies; Trysorydd: Gwyneth Jones; Cadeirydd: Eluned Porter. Dymunwyd adferiad iechyd buan i bawb sy'n sâl yn y pentref a chydymdeimlwyd â theulu Cae Corniog a Bryn Rhydd ar eu profedigaeth sydyn. Dymunwyd pob bendith i dri o'r pentre, sef Nia Parry, Norman Jones a Glyn Mowll ar eu priodas.

Rhodddwyd y te gan Mrs Elen Williams a Mrs Mary Davies. Enillwyd y raffl gan Mrs Nesta Jones. Bydd y cyfarfod nesaf Mai 16.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAEHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

CHWILOTA

"Gwyneth of the Welsh Hills"

Yn dilyn y cais y mis diwethaf am wybodaeth ynglyn â'r ffilm, "Gwyneth of the Welsh Hills", cafodd yr 'Eco' fenthyg llun a dynwyd yn ystod y ffilmio. Mae'r llun ym meddiant Mr Owen Owen, Bro Rhuddallt, Llanrug; ac hefyd ym meddiant ei chwaer, Mrs Maggie Lewis, Madryn House, Llanrug. Roedd rhieni'r ddau yn ymddangos yn y ffilm ynghyd â lluo o 'actorion' lleol eraill. Roedd Mrs Lewis, hithau yn y ffilm, yn cael ei chario yn y drol fach a ddangosir yn y llun.

Dyma beth o hanes y ffilm a'r cefndir fel y mae Mrs Lewis yn ei adrodd:

"Edith Napean oedd enw y wraig a ysgrifennodd y llyfr, a llawer iawn o lyfrau eraill hefyd. Penderfynwyd gwneud ffilm ohono, a'r ffilmio yng nghyffiniau Llanrug. Ffilmwyd un rhan yng Nghapel y Bryngwyn."

Mae'r llun yn dangos nifer o actorion yn sefyll yn y giat sy'n arwain i'r buarth o flaen drws y Capel.

"Richard Griffith, Ddol Helyg, neu Dic Ddol i ni'r plant, oedd biau'r car a cheffyl, a minnau yn cael mynd rownd Bryn Bras yn y car a chael fy ffilmio."

Mae Mrs Lewis yn mynd ymlaen i adrodd rhywfaint o'r cefndir i ni:

"Genedigol o Landudno oedd Edith Napean, ond yn medru dim Cymraeg. Aeth o Landudno i fyw i Ealing Common, Llundain, mewn plasdy mawr. Roedd fy nwy chwaer a minnau yno'n gweini am dipyn o flynyddoedd. Yno hefyd roedd Eva Parry o Gwm y Glo a Jane Olwen o Lanrug."

Mi fydda Edith Napean yn 'entertainio' llawer o sêr y ffilmiau. Rwyf yn cofio rhai yn iawn. Roedd Ivor Novello yn dod yno'n aml. Ei ffrindia penna' hi oedd Caradog Evans. Fo sgwennodd y llyfr "Taffy", ac fe ddangoswyd ei ddrama yn y *Shepherds Bush Empire*. Wrth gwrs, roedda ni i gyd yn cael mynd i weld y ddrama. Gan ei fod yn rhedeg y Cymry i lawr gymaint, mi oedd yn cael ei beltio hefo tomatos meddal pan ddangosodd ei hun ar y llwyfan - wedi mynd mor gas ei wyneb gan y Cymry."

Does ryfedd felly i'r cwmni benderfynu ffilmio yn Llanrug, gyda chymaint o'r ardal yn gweini yng nghartref yr awdures. Atgofion hapus sydd gan Mrs Lewis hithau o'r cyfnod pan fu yno:

"Cawsom ni'r genod le da iawn hefo Edith Napean. Roedd llawer o Gymru yn dod atom ac yn cael croeso mawr gan fy chwaer - gan mai hi oedd y 'cook'!"

Mi fydda 'na rai o Lanberis yn dod i chwarae ffwtbol mewn cae yn ymyl y ty hefyd - John Roberts a Bob Gillespie."

Llawer o ddiolch i Mrs Lewis am roi peth o'r hanes i ni, a hefyd am gael benthg y llun. I'r rhai sydd â diddordeb ym myd y ffilmiau, mae stamp ar gefn y llun yn nodi'r enw "Stoll Picture Productions Ltd., 49 Greek Street, London." Efallai y gall rhywun roi mwy o wybodaeth i ni am y cwmni.

* * *

Daeth cais gan Mr Dewi Jones o Benygroes sy'n ymchwilio i hanes damweiniau ar yr Wyddfa. Mae'n ceisio darganfod dau fedd - o bosibl ym mynwent Nant Peris neu Lanrug. Cafodd dau wr eu lladd ar yr Wyddfa o fewn dwy flynedd i'w gilydd, ac mae'r ddau - yn ôl traddodiad - wedi eu claddu yn agos iawn i'w gilydd. Y gwr cyntaf oedd rhywun o'r enw FRODSHAM, a laddwyd ar Glogwyn Du'r Arddu yn 1859, a'r llall oedd William Williams o Lanberis a laddwyd ar Glogwyn y Garnedd yn 1861. Os oes unrhyw

Golygfa o'r ffilm o flaen Capel y Bryngwyn, Llanrug.



O'r chwith i'r dde): Mrs Maggie Owen ? ; Bryn Coch neu Tai Plastirion ? ; Miss Prichard, Cae Newydd (?) Bu'n cartrefu am gyfnod gydag Ellen Thomas, Bryngwyn Terrace (mam y diweddar T W Thomas); Mrs Catherine Owen - mam Owen Owen a Maggie Lewis; Un o'r actorion dieithr; Richard Griffith, Ddol Helyg yn eistedd yn y car; Lillian Gish yr actores; Mr Owen Owen - tad Owen Owen a Maggie Lewis; Mr Robert Jones, Bryn Coch (bron o'r golwg - taid Mrs Dorothy Jones (Tal y Bont))

un yn gwybod rhywfaint o'u hanes, neu'n gwybod ble maent wedi eu claddu, yna cysylltwch â'r Golygydd Erthyglau neu'n uniongyrchol â Dewi Jones, Penygroes (ffôn: 881471)

TECLYN AMAETHYDDOL

Cafwyd ymateb ynglyn â'r llun o declyn ffermio a ddangoswyd yn y rhifyn diwethaf. Derbyniwyd amryw o alwadau ffôn yn nodi mai "AERWY" yw'r enw arno.



Hen lun o "bedol" Ebenezer. Mae'r cerdyn post ym meddiant R D Roberts, Gwaun Gynfi, Groeslon. Roedd y cerdyn yn un o gyfres "Pritchard (Ebenezer) Series" a'r hawlfraint yn eiddo Mills, Bangor. Oes rhywun yn gwybod pwy oedd Pritchard?

PA FARDDONIAETH?


Mae un o ddarllenwyr y golofn yn chwilio am ddarn o farddoniaeth a oedd yn adroddiad poblogaidd ers talwm. Cred mai'r teitl oedd 'Y Bachgen Du' a bod y llinell

gyntaf yn dechrau:

"Ai am fy mod yn Negro..."

Oes unrhyw un o'r darllenwyr all helpu?

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556



PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF, LLANRUG

Ffôn: C'fon 2122

ar gyfer...

Paent, Papur wal,
Anghenion addurno,
Coed, Tywod, Gro,
Bricks, Blociau,
a Sment,
Offer plymio

Anghenion Tŷ,
Garddio,
Hadau Unwin,
Hardware, nwyddau
Ironmonger
Teganau

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Myfyrdod Mewn Ysbyty

Myfyrdod yn Ysbyty Môn ac Arfon ym Mangor rai blynyddoedd yn ôl yw'r gân ganlynol. Rhoddwyd y gân yn llaw y diweddar J Emlyn Jones, Parc Isaf, Llanrug oedd yn y gwely agosaf at Mr W J Williams, yr awdur. Cafodd Emlyn ganiatâd W J Williams i'w chyhoeddi. Rhoddodd Emlyn y gân i mi a rhoddais innau hi yn yr Herald 12.2.80. Credaf fod neges y gân yn bwrpasol i ninnau heddiw.

Un haf pan oeddwn yn rhodio
Yng nghanol prysurdeb y dre,
A'r bobloedd o gwmpas yn gwibio
Heb wybod yn iawn i ba le.
Tra'n crwydro, fe sylwais ar rybudd
Ac arno ysgrifen pur fras,
A hwnnw yn rhybudd 'swyddogol'
Perthynai i wyr y gôt las!

"No waiting this side", dyna'r rhybudd
A welir o bellter yn glir,
O wrthod â hwn gydymffurfio
I gyfrif fe'n gelwid cyn hir;
Meddyliais mor wir ydoedd geiriau
Y rhybudd ar yrfa trwy'r byd,
Ar lwybr mor ddurus ei droeon
Ar siwrnai na wyddom ei hyd.

"No waiting this side" sydd yn ddarlun
O ruthr ein bywyd yn awr,
Rhyw garlam sydd wedi cael gafael
Yn dynn ar fforddoliol y llawr.
Mae tuedd "troi'r ffordd arall heibio"
Gan fod yn glust-fyddar a ffoi
O helbul pawb arall, heb gofio
Fod Olwyn Rhagluniaeth yn troi.

Ar briffordd ein bywyd mae hefyd
Rybuddion fel 'Halt' a 'Give Way',
A 'Stop' pan mae galw am hynny -
Priodol pob un yn eu lle.
Cyn brysio i uno'r drafnidiaeth
Boed 'Halt' i ddwyn cysur a gwên,
I'r rhai sydd yn aros ar groesffordd
Yr unig, y cleifion a'r hen.

Tra byddwn 'This Side' yn tramwyo
Mewn ystyr, ymaros ni chawn,
Yn ddistaw yn dirwyn mae'n horiau
Try'r bore yn gynnar brynhawn:
Sut treuliwn ein hamser sy'n cyfri,
Mae eraill i'w cofio o hyd -
Pan welwn fod angen cymwynas,
'Give Way' - ddylai fod yn ein bryd.

Pob cyfle o beidio'i ddefnyddio
Ddiplanna, nis cawn yr ail waith,
Gan hynny mae 'stop' i weinyddu'n
Hanfodol trwy gydol y daith.
Dibynnu mae pawb ar ei gilydd
Am gwmni, a pharod help llaw,
Os gwnawn ein dyletswydd nac ofnwn
Pa rwystrau i'n cwrddyd a ddaw.

W J. Williams

GWILYM H. WILLIAMS BRYN DAIRY 2 BRYNHYFRYD BETHEL

Ffôn
Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

Colli'r Sbectol

(yng Nghaernarfon)

Yn y dref, nid hogyn drwg
Yn ymlid swyn anamlwg
Ydoedd Tom, a siomi fel saeth
Edifeirwch du fariaeth
Yn ei fron, a min ei frath
Fel gwayw gloyw Goliaeth.
Nage, myn dyn, ond dyn dda,
Sy' byth gwmpas ei betha',
Yr hwn, yn wir, er hynny,
Gollodd ei sbectol, gol gu.
Byddai'n ffrynd yn mynd ymhell
A'i lygaid yn ei logell,
Gwall i'w radd oedd colli y rhain -
Tro hagar gwr trigain:

Mwynwch ei ffram i henoed,
Swel ei liw o "celluloid"!
Ei phont aur, a'i phant eurwch,
Oedd iau mwyn ar drwyn mewn
drych,

Callaf o'r gwyr a'i collodd
Ni wyddys, meddys, y modd.
Rhaid mai cnoc ar ei boced,
Megis 'clensh' a'r lens ar led,
Hi a darfwyd o'r dyrfa,
Hoyw yr aeth fel "iâr yr ha",
Hwb a winc, hi ysbonciodd,
Dirgelwch, twllwch a'i toddd,
Er chwilio hwyr i'w chael hi,
Aeth i "Woolworth" i holi,
Ond ofer fu pob dyfais -
Di lwydd ei dafod a'i lais.
E droes Tom, do, gan dristau,

CLWB FFERMWYR IFANC CAERNARFON

Y dydd Mawrth canlynol, sef
Mawrth 28, trefnwyd pwy oedd yn
cymeryd rhan ym mha gys-
tadleuaeth yn y Rali.

Ar Ebrill 4 roedd ein cyfarfod
nesaf, ac chafwyd noson yng ngh-
wmni y Cadeirydd a'r Is-gadeiry-
dd. Cwis oedd ar ein cyfer
ganddynt. Mwynhaodd pawb ei
hunain wrth edrych ar y ddau yn
trio gofyn y cwestiynau.

Treuliwyd nos Fawrth, Ebrill 11
yng Ngholeg Glynllifon. Cafodd
pawb hwyl yn mynd o amgylch y
fferm a'r plas ac hefyd y gêm o
snwcer ar ddiwedd y noson.

Llongyfarchiadau i Nicola
Griffiths ar gael ei dewis i gynry-
chioli Eryri, mewn cystadleuaeth
barnu gwartheg stôr ar ddiwrnod
Gwaith Maes Cymru.

Nos Fawrth, Mawrth y 21, roedd
newid yn rhaglen y clwb, nid oedd
ganddym siaradwr yn ymweld â'r
clwb, ond y clwb yn mynd i
ymweld â'r siaradwr, oherwydd
ymweliad â'r FMC oedd ar y rha-

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

MARWOLAETH: Dydd Sadwrn,
Mawrth 25ain, bu farw Mrs Lynda
Wynne Humphreys, 27 Bro
Rhyddallt, Llanrug yn Ysbyty Bryn
Seiont wedi cystudd hir. Magwyd
Lynda, merch Mr Dennis Jones a'r
ddiwedd S Jones yn 11 Trem
Eilian ac mae ein cydymdeimlad
yn ddwys â'i phriod a'i phlant, ei
thad, ei chworydd a'i brodyr a'u
teuluoedd yn eu profedigaeth
chwerw. Bu'r angladd ddydd lau,
Mawrth 30ain gyda'r Parch John
Morris yn gwasanaethu.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos
Lun, Ebrill 17eg cyfarfu'r gangen
yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs
Pat Jones. Darllenwyd llythyr y
mis gan y llywydd.
Llongyfarchwyd tair o aelodau'r
gangen, Mrs Jennie Hughes, Mrs
Ifanwy Jones a Mrs Carol Houston
ar ddod yn drydydd mewn cyst-
adleuaeth Sgets dan nawdd
Grwp Gwryfai o Sefydliad y
Merched ar gyfer Noson Lawen a
gynhelir yn yr Arcadia, Llandudno
ar Fai 19eg. Gwnaeth Mrs Eirlys
Williams a Mrs Betty Owen gyfrif
da ohonynt eu hunain yn yr ornest
'Scrabble', Mrs Eirlys Williams yn
dod agosaf at y buddugwyr.

Yn dilyn croesawyd Sioned
Jones oedd wedi dod i arddangos
nwyddau Ceramia. Bu llwyddiant
ar yr arddangos a'r gwerthu.
Trefnwyd y lluniaeth gan Mrs Mai

Parry a Mrs Gwyneth Williams.
Rhoddwyd gwobr y mis gan Mrs
Carol Houston ac fe'i henillwyd
gan Mrs Eirlys Williams. Hi hefyd
a ddiolchodd am weithgareddau'r
noson a llongyfarchwyd y llywydd
ar fod yn nain unwaith eto.
Estynnwyd gair o wir gydymdeim-
lad â theulu Mrs Lynda Wynne
Humphreys yn eu profedigaeth
ddiwedd. Bu Lynda yn aelod o'r
gangen am gyfnod a chwith yw ei
chollu o'n plith.

Bydd Cyngor Gwanwyn
Sefydliad y Merched yn cael ei
gynnal yng Nghricieth ar Fai 5ed,
a threfnir bws i'r cyfarfod, fydd yn
dechrau am 7 o'r gloch. Cynhelir y
cyfarfod nesaf o'r gangen leol nos
Lun, Mai 15fed.

CROESO: Estynnwn groeso i'r
pentref i'r Parch a Mrs John G
Morris, Rhys a Llyr, sydd wedi
ymgartrefu yn eu cartref newydd,
Meini Gleision ar Stad Erw Nant.
Hefyd ein dymuniadau gorau i
Gari a Helen, Emma'r ferch fach
a'r baban newyddanedig, sydd
wedi symud i'w cartref newydd
gerllaw yn Rhandir.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i
Marian Lloyd Jones, 3 Trem Eilian
fu'n llwyddiannus mewn arholiad
cerddorol ysgrifenedig, Gradd 2,
gyda chlod. Cynhaliwyd yr arholi-
ad dan nawdd y Coleg Cerdd
Brenhinol.

O'r dref adref heb wydrau,
Wyla y sant na wêl sill,
O! na phennod na phennill.

Glan Rhyddallt
Glangauaf 1930



glen. Aeth yr aelodau yno i ddys-
gu sut i farnu gwartheg stôr.
Mwynhaodd pawb ei hun ac rwyf
yn siwr ein bod wedi dysgu rhyw-
beth newydd.

CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman
LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa
wythnosol. Dewch i weld ein
amrywiaeth eang o fwydydd
**Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta,
Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych,
Grawnfwydydd etc.**

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL
EICH ANGEN
AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

EISTEDDFOD YR URDD DYF-FRYN NANTLE AC ARFON 1990: Cofiwch am Wyl y Cyhoeddi, gyda'r Seremoni ei hun yng Nglynllifon brynhawn Llun, Mai 1af. Fel Pwyllgor, byddwn yn cynnal stondin TOMBOLA a GEMAU yno, felly dewch yn llu i fwynhau hwyl yr Wyl a sicrhau copi o Restr Testunau 1990.

CASGLIAD BARNADO'S: Yn ddiweddar trefnwyd casgliad tuag at Dr Barnados gan Glwb y Mamau. Casglwyd cyfanswm o £71.84.

Y casglwyr oedd Mrs Eleri Warrington a Miss Llinos Williams: £20.50; Mrs Carys Williams: £10.30; Mrs Delyth Williams a Mrs Nan Owen: £27.17; Mrs Sulwen Thomas a Mrs Linda Hughes: £3.77; Mrs Eileen Jones: £10.10.

Hoffai'r trefnwyr ddiolch i bawb am roddi mor hael i'r achos teilwng yma.

DIOLCH: Dymuna M G Williams, Gwylfa, Bethel ddiolch yn fawr i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd iddi tra yn Ysbyty Gwynedd, ac ar ôl dod adref.

LLONGYFARCHIADAU i Lynne Hardwick, Silyn, Cefn Cynrig ac i Gwenan Davies, Trem Eryri ar ddathlu eu pen-blwydd yn 18 oed yn ystod y mis.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Gareth Hughes, Erddig ar ei benodi yn brifathro i Ysgol Gynradd y Borth. Ar hyn o bryd mae Gareth yn brifathro yn Llandwrog. Bydd yn dechrau ar ei ddyletswyddau yn y Borth ym mis Medi.

LLONGYFARCHIADAU i Iona Williams, 1 Tan y Cae ar enedigaeth merch fach.

CLWB Y RHOS: Nos Fercher, Ebrill 12 ar noson ola'r tymor aeth nifer o aelodau Clwb y Rhos i hedfan o Mona. Trefnwyd y noson gan Mr Alwyn Williams, Seion, gyda Mr Cyril Owen yn beilot ar un o'r triplau hefyd.

Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn a'r profiad o hedfan dros y pentref yn un gwefreiddiol.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Ebrill 12 dan lywyddiaeth Mrs Mair Price, cynhaliwyd cyfarfod y gangen yn yr Ysgol. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni y Cynghorydd Jack Thomas, Caernarfon a fu yn sôn am ei

gyfnod cynnar yn bwrw prentisiaeth ac yn rhedeg busnes barbwr yng Nghaernarfon ac wedyn yn Llundain. Diolchwyd i Mr Thomas gan Mrs Ceinwen Williams.

Dymunwyd yn dda i Llinos Angharad, Perthi a oedd wedi bod yn yr ysbyty.

YN ÔL O RWSIA: Erbyn hyn mae Mr Emyr Price wedi cyrraedd adref ar ôl cyfnod o dair wythnos yn ffilmio yn Voroshilovgrad, gefeilldref i Gaerdydd yn yr Ukrain, Rwsia. Bydd y rhaglen yn sôn am yr ardal, lle nad oes nemor ddim camera teledu o'r Gorllewin wedi cael mynediad o'r blaen, yn canolbwyntio ar y sefyllfa ddwyieithog a'r symudiad i gael mwy o hunan lywodraeth, yn cael ei dangos ar y teledu yn ystod y misoedd nesaf.

YR URDD: Llongyfarchiadau i Mrs Glenys Griffiths a'r Parti Canu dan 15 oed ar gael gwahoddiad i fynd i lawr i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghwm Gwendraeth.

Mae'r gangen wedi trefnu noson o chwaraeon yn y cae chwarae nos Fercher, Mai 3ydd. Bydd y tri gorau ym mhob ras yn cynrychioli y gangen yn chwaraeon yr Urdd yng Nghaernarfon yr wythnos wedyn.

Trefnwyd taith gerdded ar Ffordd Eifion ym mis Mehefin. Bydd aelodau y Parti Canu sydd yn mynd i Gwm Gwendraeth yn trefnu i gael eu noddi ar y daith gerdded i gasglu arian tuag at gostau'r daith i'r De.

HWYLIO YN TASMANIA: Yn rhifyn Ebrill o'r Eco adroddwyd fod Dewi Hughes, Glyn Trefor a Gwyn Jones, Tan y Buarth yn cystadlu mewn ras hwyllo yn Nhasmania, Awstralia. Erbyn hyn mae Dewi a'r teulu, Gwyn a Dewi a Wena Hughes, oedd wedi bod draw yn Nhasmania, wedi cyrraedd yn ôl adref. Daethant yn 13eg yn y ras allan o griw mawr. Llongyfarchiadau mawr i'r hogiau ar eu llwyddiant yr ochr draw i'r byd.

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth
STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

**TEGID
PRITCHARD**

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

MAE'R

SAMARIAID

YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



**BANGOR
354646**

Mrs Huws yn ymddeol o Ysgol Bethel wedi pedair a deugain mlynedd o wasanaeth.

Y mae dechre a gorffen i bob gyrfa,
A dyna heddiw ddigwyddodd yma
I wraig ffarmwr Glan-rafon, Llanddona,
Ei henw swyddogol yw Gracie Alwena.

Yn Bethel, Arfon y treuliodd ei gyrfa,
Yn wyn ei byd gyda'r plant a'i llyfra,
Bu'n athrawes a mam i genedlaetha,
Cymysglyd yw heddiw yn siwr i Alwena.

Mawr fu eich braint a'ch boddhad,
Gweld ffrwyth eich llafur wedi hau yr hâd,
Eich cysur a'ch gwobr a rydd i chwi fwyniant
Fydd cofio didwylledd y plant, a dilyn eu llwyddiant.

Er crwydro dros lawer bryn a phant
Anodd fydd anghofio miri'r plant,
Ac i'r plant hefyd, wrth gwrs,
Erys cof annwyl am Mus Huws.

Diolchwn ac eiddunwn i chwi fwynhau'r ymddeol
Cael llonydd i grwydro a ffarmio yn rhydd o bob rheol,
A chwmni'r cwn a'r gath, teulu a chyfeillion rhadlon
Ar aelwyd gynnes, gysurus Glan-rafon.

A phen-blwydd eich priodas yn cyd-ddigwydd
Bydded eich dyfodol yn ddiogel a dedwydd.

Bwriadwyd i'r penillion hyn ymddangos yn rhifyn diwethaf Eco'r Wyddfa - Gol.

Y LLYFRGELL A CHAMDDEFNYDD CYFFURIAU

Yn dilyn cytundeb gyda'r Sefydliad i Astudio Dibyniaeth ar Gyffuriau, bydd y Llyfrgell yn rhan o'r ymgyrch yn erbyn y Camddefnydd o gyffuriau.

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd wedi cytuno i roi pecyn gwybodaeth a baratowyd gan y Sefydliad ymhob cangen trwy'r sir o Ebrill 1989 ymlaen. Yn y pecyn ceir gwybodaeth am gyffuriau a gwobdaeth am sut i gael cymorth i'r rhai sydd â phroblem gyda chyffuriau.

Bydd y pecyn yma'n gymorth mawr i staff y llyfrgell i ateb ymholiadau am gyffuriau. Bydd yn werthfawr nid yn unig i rai sydd â phroblemau eu hunain, ond hefyd i rieni, i blant ysgol sy'n gwneud prosiect ar gyffuriau ac i bawb sydd eisiau gwybod may am y pwnc.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Bethan Parry, Ael y Bryn.

LLONGYFARCHIADAU i Gary ac Alwena, merch Mr a Mrs Cyril Roberts, 1 Tai Minffordd ar eu priodas, Ebrill 8fed.

LLONGYFARCHIADAU i Sharon a Dylan, Arvonja Terrace, Llanrug ar enedigaeth Llion Gethin, wyr cyntaf i Mr a Mrs Alwyn Jones, 3 Tai Tan y Coed.

TRISTWCH oedd gweld fod y 'kiosk' coch wedi mynd o Bont y Coed. Ond, da oedd gweld fod teliffon newydd yng Ngiat Goch - rhwng Tai Minffordd a Thai Trefor.

YN EISIAU
Yn ardal Llanberis
Fflat neu dy bychan ar
osod o ddiwedd Mai
ymlaen
Cysyllter â Waunfawr 457.

TAC SIS BETHEL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

ECO'R IFANC

HEDFAN I FFWRDD!!

Lliwiwch y llun gan liwio'r balwns mewn gwahanol liwiau.



CORNEL JOCS

Beth sy'n sychu tra'n cyflwyno 'Helo Bobol'?
Tywel Gwynfryn!

Mr Jones: Bore da cariad. Dwi am goginio brecwast i ti.

Mrs Jones: Yn dy byjamas?

Mr Jones: Na - yn y badell ffrio!

Athrawes: Beth sy'n dod ar ôl chwech?

Wil: Y dyn llefrith!

Byd Gwahanol

Pan oeddwn yn cerdded ar y traeth un diwrnod stormus roedd y môr wedi cynhyrfu, roedd y tonau yn rhuo a chwyrlïo o gwmpas. Roedd yn anodd peidio a disgyn oherwydd roedd y tonau yn fy nhynnu i atynt. Roedd y môr mor swnllyd doeddwn i ddim yn gallu clywed fy hun yn siarad.

Ond pan oeddwn yn cerdded wrth y llyn yn y parc ar ddiwrn-

Plant o Lanrug sydd wedi anfon eu gwaith i'r gornel y mis hwn. Dyma ddwy stori i chi, un gan Delyth Humphreys a'r llall gan Emma Lloyd Davies. Storiâu hyfryd, genod! 'Rwan hogiau, beth amdanoch chi? Ydych chi'n meddwl y gallwch chi anfon gwaith i'r gornel erbyn y mis nesaf? Rhowch dro arni!

Prynu Ceffyl

Un dydd roedd gwraig yn eistedd ar ochor y ffordd. Yna daeth dyn heibio. Sipsi oedd y dyn yma. Gwelodd y wraig, roedd hi'n wylo nawr.

"Pam wyt ti'n wylo?" gofynnodd y dyn.

"O-O-O mae fy mam a nhad wedi fy nhroi fi allan o'r ty. Does gennyf fi ddim lle i fyw ynddo rwan."

"Tyrd mi gei di ddod i fyw gyda mi," meddai'r sipsi.

Felly fe aeth y ferch gyda'r sipsi i'w dy. Carafan oedd y ty.

"O dyna garafan od," meddai'r ferch. "Mae gennym ni rhai llawer mwy modern y dyddiau hyn."

"O," meddai'r sipsi "rhaf fel yna fel arfer sydd gan y sipsis."

"Sipsi ydech chi felly?"

"Ie," meddai'r sipsi.

"Beth wnaf i eich galw chi?"

"O galwch fi yn Sion."

"Beth wnaf fi alw chi, merch?"

"Galwch fi yn Sion."

"Sion a Sion, mae rheiny yn swnio'n neis gyda'i gilydd," meddai Sion.

Cymerodd Sion anadl o wynt mawr. "Rwy'n teimlo fel fy mod eisiau mynd o gwmpas y byd fel y sipsi eraill."

"Ond sut?" gofynnodd Sion, "does gennym ni ddim ceffyl."

"Mae'n rhaid i ni wneud arian i brynu un. Mae'n rhaid i ti sgwrio llawr pobol ac mi wna innau wneud eu gerddi. Mi gawn bres felly."

Felly fe ddechreuodd y ddau eu gwaith. Sgrwbiodd Sion lawr Mrs Gwyn, Mrs Thomas, Mrs Evans, Mrs Owen, Miss Humphreys, Mrs Humphreys, Mrs Roberts, Mr Wyn, Mr Jones, Mr Roberts a Mrs Jones.

Mi roedd wedi bod yn brysur iawn. Gwnaeth Sion ardd Mrs Morgan, Mr Thomas, Mr Gwyn, Mr Evans, Mr Owen, Master Wyn, Mr Humphreys a Mrs Wyn i edrych fel pin mewn papur. Ar ôl hynny aeth Sion a Sion i'w cartref a chael te allan am ei bod mor braf. Fe gyfrodd Sion y pres tra'r oedd Sion yn gwneud y te. Gwelodd nad oedd ganddynt ddigon i brynu ceffyl eto. Ar ôl gweithio gymaint mor galed mi roedd ganddynt ddigon o bres i brynu ceffyl. Prynodd y ddau geffyl gwyn hardd a chry cyn dechrau ar eu taith rownd y byd.

Emma Lloyd Davies, 7 oed

od di-gyffro, roedd y llyn yn llonydd fel llyn llefrith, a'r elyrch yn nofio ar wyneb y dwr heb boeni am ddim yn y byd.


Roedd y llyn fel sidan ac yn llyfn. Doedd dim ond awel ysgafn yn siffrwd y llyn. Roedd hi'n fendigedig yno. Roedd y môr mewn byd hollol wahanol i'r llyn distaw.

Y llyn oedd y gorau gennyf i. Beth oedd y gorau ganddoch chi?

Delyth Humphreys, 9 oed


CEFNOGWCH
EIN HYSBYSEBWYR

COPIWCH Y LLUNIAU YMA




Y DARLUN CUDD

Lliwiwch y trionglau i gyd ac fe ddowch o hyd i'r darlun cudd.



EWCH O DDOT I DDOT YNA LLIWIWCH Y LLUN



PYSGOTA

Beth sy' ar ben pob gwialen?



LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

DIOLCH: Dymuna Mrs Nancy Jones, Madryn ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau oll am eu caredigrwydd yn ystod ei gwaeledd. Diolch hefyd i'r meddygon lleol a staff Ysbytai Gwynedd a'r Bwth am eu gofal.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd y cyfarfod ar Ebrill 11 yn yr Ysgol Gynradd. Dymunodd y llywydd, Mrs Ann Ifans, wellhâd buan i Mrs Mair Huws, sydd yn yr ysbyty. Anfonwyd cydymdeimlad at Mrs Megan Jones ar golli ei mam yn y Waunfawr. Llongyfarchwyd Mrs Myfanwy Parry, roedd ei merch yn 'Briodferch y Flwyddyn' ar raglen deledu 'Sioe Ddillad', gan y BBC yn ddiweddar.

Y gwr gwadd oedd Mr Selwyn Griffith, a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am ei gerddi. Diolchwyd iddo gan Mrs Bethanne Williams.

Darparwyd y baned gan Miss Phyllis Ellis, Mrs Meryl Green a Mrs Myfanwy Parry. Diolchwyd iddynt gan Miss Mary Roberts. Enillydd y raffl oedd Mrs Beryl Thomas. 'Cyfarfod Blynnyddol byr' fydd y cyfarfod nesaf ar Mai 9 ac yn dilyn gyda 'Mynd ar Daith' yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones.

A fuasai'r aelodau sydd heb ddychwelyd eu bonion raffl yn eu hanfon i Mrs Nan Humphreys neu Mrs Margaret Parry cyn Mai 1af os gwelwch yn dda.

DR BARNADOS: Casglwyd y swm o £128.72 yn y pentref yn ddiweddar. Dymuna'r trefnydd ddiolch i'r casglwyr a'r cyfranwyr.

GWELLHAD BUAN i Mrs J Humphreys, Las Ynys, Rhos Rug, sydd wedi dod yn ôl adref o Ysbyty Gwynedd ar ôl damwain yn ei chartref.

LLONGYFARCHIADAU i Ellen a Cled, 4 Hafan Elan, ar ddathlu eich priodas ruddem.

BEDYDD: Dydd Sul, Mawrth 26 yn y Capel Mawr, bedyddiwyd Catrin Mair, merch David a Linda Owen, 3 Plastirion Terrace, gan y Parch John Morris.

BEDYDD: Dydd Sul, Ebrill 2il, yn y

Capel Mawr bedyddiwyd Jonathan Daniel, mab Alun a Carol Ann Jones, Gwylfa, Ffordd yr Orsaf, gan y Parrhc John Morris.

ADFERIAD BUAN i Mrs Mair Huws, Glasgoed, ar ôl ei llawdrini-aeth yn Ysbyty Gwynedd.

PLAID CYMRU: Trefnwyd Ffair Wanwyn lwyddiannus yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Ebrill 19. Agorwyd y Ffair gan un o ffyddloniaid selog Plaid Cymru yn y pentref, sef Mrs Gwladys M Jones, Dalar Deg, a chyflwynwyd basged o flodau iddi gan Ceri Jones, 59 Glanffynnon.

Croesawyd pawb yno gan Phyllis Ellis, a chyflwynodd hefyd Eleri Carrog, ymgeisydd Plaid Cymru ar gyfer etholiad y Cyngor Sir ar Fai 4ydd. Enillwyd y gwobrau a ganlyn:

Enwi'r ddol: Margaret Jones, Dwyros; Da-da: Luned Mair Jones, Pant Mwyn; Cyw iâr: Mai Davies, cegin yr ysgol; Ffrwythau: Iwan Machno Lloyd, Afallon, Bryn Moelyn; Gwin: Ifor Glyn, Deiniolen; Blwch Te: Angela Bacon, Llanrug.

Enillwyr y Clwb Cant oedd 1. Cecil Williams, Hafan Elan; 2. Beti Peris Jones, Egryn Villa.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Mai Davies a staff y gegin a Helen Lewis, gofalwraig yr ysgol am eu holl help a'u cefnogaeth, i'r rhai a gyfrannodd nwyddau at y stondinau a rhoddion ariannol, ac i bawb a ddaeth yno i gefnogi'r fenter flynyddol hon i chwyddo coffrau ariannol y gangen.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Mai 17 pan drefnir Helfa Drysor gan Eryl ac Islwyn Roberts, 3 Bryn Moelyn. Bydd manylion ar bosteri yn y pentref yn nes ymlaen a bydd croeso i ffrindiau ymuno â'r aelodau am noson hwyliog.

CHWIORYDD PONTRHYTHALLT: Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yn Festri Pontrhythallt pnawn lau, Ebrill 20fed. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs A Smith, Llechwedd, a chafwyd anerchiad gan Mrs E Thomas, Dolwar.

CARNIFAL Y PENTREF



Na, nid yw carnifalau'r fro wedi dechrau eto. Dyma lun o Seindorf Llanrug yng Ngharnifal y pentref ym 1975. Rydych yn siwr o adanbod un neu ddau er iddynt wneud ymdrech i guddio tu ôl i wisgoedd ffansi.

Rhoddwyd y te gan Mrs J Griffith, Fron Hyfryd a Mrs A Smith, Llechwedd. Talwyd y diolchiadau gan y Llywydd, Mrs J Williams, Bod Fair. Bydd y cyfarfod nesaf bnawn lau, Mai 18 am 2 o'r gloch.

CYDYMDEIMLWN â Mr Ronnie Humphries a'r teulu, 27 Bro Rhyddallt, yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam.

CYDYMDEIMLWN â Mr Maelor Owen, Crug, Ffordd Minffordd yn ei brofedigaeth o golli ei fam, Mrs Bessie Owen.

CYLCH MAM A'I PHLENTYN: Yr ydym yn gobeithio cael Cylch Mam a'i Phlentyn yn y pentref unwaith eto. Os oes gennych blentyn o dan 2 a hanner dewch i gaban yr Ysgol Feithrin (ar iard Ysgol Brynrefail am 1.30, ddydd Mercher, Mai 3ydd. Bydd Mrs Cynthia Owen, Swyddog Datblygu Ysgolion Meithrin Arfon yno i roddi cyngor ynglyn â sefydlu'r cylch.

YMDDEOLIAD GOFALWR: Yn ddiweddar, ar ôl bron i ugain mlynedd o wasanaeth cymeradwy iawn ymddeolodd Mr Richard Jones, 8 Rhos Rug o'i swydd fel Gofalwr Ysgol Brynrefail. Rhoddwyd siec i Mr Jones ar ran y Prifathro, Athrawon, Staff y Swyddfa a Staff y Gegin fel gwerthfawrogiad o'i waith. Cyflwynwyd anrheg iddo gan y Glanhawyr presennol a rhai o'i gyn gyd-weithwyr. Ymddeoliad hapus iawn i chwi Mr Jones.

YR YSGOL

Noddi: Dydd Mercher, 10 Mai, bydd Draig fawr werdd yn ymweld

â'r ysgol - 'Castell Gwynt' i neidio arno mewn gwirionedd! Caiff y plant eu nodd i geiniog am bob naid a wnant o fewn munud, ac fe aiff yr arian i sefydlu llyfrgelloedd yn yr ysgol. Wedi 3.30 pm bydd yn agored i'r plant dan oed ysgol i ddod gyda'u rhieni - am 25c y tro. Dewch draw am hwyl.

Mrs Mair Huws: Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs Huws, Safon 2, sy'n gwella'n dilyn triniaeth yn yr ysbyty.

Yr Urdd: Bu plant yr adran yn gorymdeithio drwy Gaernarfon ar Sadwrn, 22 Ebrill, fel rhan o Wyl Gyhoeddi 'Steddfod Nantlle ac Arfon 1990. Nos Lun, 25 Ebrill, bu tîm o enethod a thîm o fechgyn yn chwarae pêl-droed ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen mewn twrnament arbennig, a'r nos Fercher canlynol bu'r partiön Cerdd Dant ac Adrodd yn ymddangos yng Nghyngerdd Cyhoeddi'r Eisteddfod yn Ysgol Dyffryn Nantlle.

Sbondonics: Cafodd plant yr adran iau gyfle i fwynhau sioe arbennig gan dîm Clwb Llyfrau Spbondonics. Ymunodd chwe ysgol arall â ni i wyllo'r perfformiad.

Chwaraeon: Cywiriad: Colli 2-1, ac nid ennill wnaeth y tîm pêl-droed yn erbyn Ysgol Maesincla - ymddiheuriadau!

Mewn cystadleuaeth yn erbyn Ysgol y Gelli, Caernarfon yn ddiweddar, enillodd y bechgyn y gêm bêl-droed, 3-2, a bu'r genod yn llwyddiannus yn eu gêm bêl rwyd, 15-4.



CARTREF YR HENOED
CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS
Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON
LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

CHWAREL DINORWIG

Rhai o atgofion Dei Morris, 8 Bro Deiniol, Deiniolen.

**"Yn y chwarel roedd lle digri,
Un yn naddu a'r llall yn hollti,
Ac un arall yn ei gwman
Yn mynd a'r wagan i ben doman."**

Yr oedd ambell i gymeriad rhyfedd iawn yn Chwarel Dinorwig. Rwy'n cofio un o Fethel, sef Tomos John. Pan fyd-dai Stiwart Gosod yn gosod i'r chwarelwyr bob mis byddai rhai yn cael mwy a'r lleill yn cael llai - dibynnu ar faint o arian yr oeddynt yn ei ennill. Roedd Bargan Tomos John yn un wael iawn a dyma fo yn hel hen gotiau o'r caban a'u rhoi nhw o gwmpas y Fargan. Y graig ydi'r Fargan. Toc dyma'r Stiwart yn dod a llais mawr ganddo fo.

"Sut mae pethau'n mynd Tomos John?"

"Peidiwch a gwneud llawer o ddrw, 'please sir'."

"Be dy'i matar felly?"

"Mae'r Fargan yn wael iawn heddiw - dim ond ei bod hi!"

Cymeriad oedd John yr Hen Blas. Yr oedd pawb yn ei adnabod o. Yr oedd o, meddai pawb, yn ffrindiau mawr efo John Lloyd y Manager. Un diwrnod aeth i'r twll i chwilio am dipyn o gerrig. Yr oedd cwmp mawr ar ddod i lawr a phawb wedi cael rhybudd i gadw'n glir. Mi gwelodd y Stiwart o a'i yrru i lawr i'r Office Fawr. Dywedodd y Stiwart wrtho na welai ef, fwy na thebyg, yn dod yn ôl i'r chwarel. Un brwnt iawn oedd Mr Evans.

Aeth John i lawr i'r offis a churo ar y drws. Dyma floedd ofnadwy yn dod o'r offis - felly yr oeddynt yr adeg honno.

"Dewch i mewn." Ac aeth John i mewn.

"Be ga' i wneud i ti John?"

"Mistar bach, yr wyf wedi cael sioc o'ch gweld chi yma heddiw."

"Pam felly?"

"Yr oedd y papur yn dweud eich bod chi yn wael ofnadwy."

"John bach, paid byth â choelio y papurau 'ma. Celwydd ydi lot ohonyn nhw."

"Dach chi'n iawn, Mistar, celwydd ydi y papur yma hefyd."

"Dos yn ôl at dy waith a phaid byth a gwneud peth fel'na eto."

Dyma rai cymeriadau eraill: Cris Jones: yn mynd i'r offis wedi ymddeol i edrych am waith ysgafn.

"Ydi o'n wir bod hwn-a-hwn wedi gorffan yma?"

"Ydi, toedd yr hen greadur yn gwneud dim jest."

"Ia," meddai Cris, "rhywbeth fel'na 'rôn i'n meddwl gael syr!"

Tomos Owen Brakiwr: wedi cael gwybod fod fod Sir Michael Duff yn dod i Dop y Chwarel am dro, felly roedd yn rhaid cael wagan i'w godi o i'r Bonc. Dwy wagan yn llawn o dail ceffyl. Roedd dau geffyl i John Castle o Lanberis yn gweithio ar y Bonc. Roedd yn rhaid cael dwy wagan i'w godi un wag i fyny. Roedd Tomi Lloyd yn adnabod pawb bron wrth eu henwau.

"Wel, Tomos Owen," medda fo, "be sy gen ti i'w ddweud wrtha i?"

"Wnes i erioed feddwl buasai baw ceffyl yn codi gwr bonheddig i fyny, syr!"

Hogiau Bach Rybela: yn dechrau gweithio am rhyw naw ceiniog neu swllt yr wythnos. Yr oeddynt yn cael eu bedyddio gan y Gof. Gofyn i'r hogyn beth oedd ei enw yn llawn a dyma'r hogyn bach yn dweud,

"John Griffith Jones."

"Rown ni enw bach i ti," medda'r Gof.

"Ia," meddai'r bychan, "os ydach chi am roid enw arall rhowch enw bach neis i mi."

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

A Joni Neis oedd o wedyn.

Hogyn bach arall yn gofyn am help.

"Mae fy wagan i wedi mynd oddiar y 'rail'."

Pawb yn ei alw yn Rail Boy wedyn.

Gitto Bach, brawd Johnny Yard. Mi roedd o'n gymeriad digri iawn. Roedd hen fachgen a'i enw'n John Estar yn bildio wal bach i ddal y cerrig a phawb yn cwyno ei fod yn cymeryd amser mawr i wneud hyn. Dyma rhywun yn gofyn i Gitto,

LLYWODRAETH YN GWRTHOD EHANGU DIFFINIAD LLWCH

Mae Gweinidog o'r Llywodraeth, Mr Nicholas Scott, AS, Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros anabledd, wedi gwrthod cais gan Aelod Seneddol Caernarfon, Mr Dafydd Wigley AS, i estyn diffiniad o afiechyd diwydiannol ar gyfer dibenion iawndal pneumoconiosis, a chynlluniau iawndal cyffelyb, ac wedi dweud fod y Llywodraeth yn teimlo nad oes angen newid y diffiniadau presennol ar gyfer y mesurau hyn. Roedd Mr Wigley wedi codi cwestiwn Seneddol gyda Mr Scott, yn pwysu ar y Llywodraeth i ehangu'r diffiniad fel y byddai pobl sy'n dioddef o bronchitis difrifol, ac emphysemia, os oeddynt wedi gweithio mewn diwydiannau sy'n achosi pneumoconiosis, yn cael eu cydnabod o fod yn ddioddefwyr oherwydd yr afiechydon hyn.

Yn ei ateb, dywed Mr Scott fod ymchwiliad gan Gyngor Ymgynghorol ar Anafiadau Diwydiannol wedi adrodd y llynedd ei bod, ar hyn o bryd, yn amhosibl i wahaniaethu rhwng effaith llwch diwydiannol ar anhawsterau anadlu, a'r effaith sy'n dod o ysmegu - ac awgrymwyd mai ysmegu yw'r prif achos dros bronchitis ac emphysemia. Ychwanegodd Mr Scott fod y Llywodraeth yn derbyn adroddiad y Cyngor Ymgynghorol, ac yn bwriadu peidio ag estyn diffiniad afiechydon diwydiannol yn y modd a awgrymwyd gan Mr Wigley.

Wrth wneud sylwadau ar wrthodiad y Llywodraeth, dywedodd Aelod Seneddol Caernarfon: "Mae yna lawer iawn o ddynion sydd wedi treulio blynyddoedd maith yn y chwareli ac mewn diwydiannau eraill, sydd yn amlwg yn dioddef o effaith llwch ar eu ysgyfaint. Fodd bynnag, yn aml iawn mae'r Bwrdd pneumoconiosis yn dweud mai dim ond "ychydig o lwch" sydd arnynt, a dim digon i gyfiawnhau talu unrhyw iawndal. Maent yn cydnabod fod bronchitis ac emphysemia arnynt, ond wrth gwrs nid yw'r rheini yn cael eu cydnabod fel afiechydon diwydiannol. Fy nheimplad i yw y dylid eu cydnabod ble mae pobl wedi gweithio mewn diwydiannau llychlyd, fel bod pawb sy'n dioddef yn cael iawndal teilwng. Byddaf yn parhau i chwilio am gyfle i bwysu ar y mater yn Nhy'r Cyffredin."


CABS LLANRUG



C'FON 5951

**Prisiau cystadleuol.
Gwaith contract
pell ac agos**

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod

Ffoniwch am bris i

**J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd**

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI**

BYSUS BACH Y WLAD

Yn 1923 dechreuodd fy nhad, ei frawd Evan, a'i frawd yng nghyfraith Johnnie Pritchard Jones, gwmni bysiau eu hunain - PERIS MOTORS. Y bwriad ar y dechrau oedd sefydlu gwasanaeth rhwng Llanberis a Chaernarfon. Swllt a thair oedd tocyn dwy ffordd y pryd hynny.

Costiai rhyw £2 i roi bws ar y ffordd! Doedd dim angen yswiriant na thrwydded.

Roedd atgofion fy nhad o'r teithiau o Nant Peris i Gaernarfon adeg Ffair Nant yn rhai arbennig iawn. Mae gen i gof plentyn ohono yn eu hadrodd i mi. Roedd y storïau yma cystal os nad gwell na storïau tylwyth teg. Byddai'r bysus dan eu sang ar yr achlysuron yma. Teithiau ugeiniau i'r fair a byddai'n rhaid eu hebrwng yn ôl yn yr hwyr. Cofiai gychwyn un tro o'r Nant am 11.30 y nos hefo bws a lle i 32 o deithwyr arno. Ond roedd tua 120 o bobl ar y bws arbennig hwn. Roedd y mwyafrif wedi eu "stwfio fel sardins" i mewn, ond roedd eraill ar eu hyd ar y top, a rhai ar y 'mudguards'. Ni welai fy nhad i ddreifio gan fod tua chwech o bobl yn eistedd ar y bonat. Cawsai rhyw gipolwg rwan ac yn y man ar y ffordd droellog o'r Nant. Yn ddisymwth, pan oedd ar dro Pentra Castell, clywodd glec anacarl yn cael ei dilyn gan wich fyddarol. Stopiodd y bws yn araf ac yna gorchmynodd y teithwyr i adael yn drefnus. Ar ôl archwilio'r bws sylweddolodd fod y corff wedi dod yn rhydd o'r 'chassis'. Gadawyd y bws ar ochr y ffordd, a cherddodd pawb adref!

Fe berodd un anffawd ddychryn i fy nhad. Clywais ef yn sôn droeon am y digwyddiad hwnnw. Roedd yn gyrru bws llawn o Gaernarfon i Lanberis a rhywle rhwng tafarn y Fricsan a Llwyn Coed, gwelodd rhywbeth yn ei basio. Gellwch ddychmygu y braw a ddaeth i'w fron pan sylweddolodd mai'r gwrthrych a'i pasiodd oedd olwyn flaen y bws! Yn ffodus iawn roedd cydbwysedd y bws ar y pryd yn ei gadw rhag plymio ar ei drwyn i'r ddaear. Ni feiddiodd fy nhad daro'r brêc - ond llwyddodd i gadw'r bws sigledig ar y ffordd hyd nes y dechreuodd arafu digon

iddo allu ei sodro ym môn y clawdd. Ni chafodd neb niwed.

Bryd hynny, hyd yn oed, roedd llafnau yn llawn direidi. Cofia fy nhad iddo gael rhyw deimlad od ar ôl cychwyn ei fws o Ffair Nant un noson. Roedd rhywbeth allan o'i le. Toedd y bws ddim yn symud fel y dylai. Roedd rhywbeth yn bod ar y llyw ac nid oedd y bws yn tynnu rhyw lawer. Stopiodd ac aeth allan. Er mawr syndod iddo, roedd hanner stondinau Ffair Nant yn sownd yn y bws ac roedd wedi eu llusgo am lathenni. Roedd rhywun, neu rywrai, wedi clymu rhaff stondin India Roc i'r bws. Yn anffodus roedd y stondinau hyn wedi eu clymu i'w gilydd yn un rhes. Roedd y perchnogion yn gandryll!



Johnnie Pritchard Jones (chwith) ac Evan Jones yn sefyll ger un o fysus Peris ar y Cei yng Nghaernarfon yn 1924.

Yn ei nodiadau nid yw'n 'nhad yn sôn am ddamweiniau mawr ar y ffordd yn y cyfnod cynnar. Ychydig o ddamweiniau fyddai'r pryd hynny gan fod cyflymder y bysiau mor araf ac fe glywai pawb eu swm o hirbell. Ond fe glywais yn ddiweddar am 'conductor' yn syrthio oddiar fws deu-

lawr (double decker) ger Pontrug. Disgynnodd oddiar y grisau a oedd, y pryd hynny, ar y tu allan! Oes rhywun yn cofio'r digwyddiad?

Mae Mr Dei Morris, Bro

o deithio ar y bws cyn naw o'r gloch y bore, dim ond hanner y pris oedd yn rhaid ei dalu.

Daeth y mentro gwyllt i ben gyda dyfodiad y Road Traffic Act 1930. Deddf oedd hon i ddiogelu teithwyr - a diolch amdani. Daeth cwmni'r Crosville i gymryd drosodd a sylweddolodd "Hogia



Un o fysus bach y wlad ar ei ffordd am Lanrug, ger Lodge Llwyn Brain.

Deiniol, Deiniolen yn cofio iddo gael ei daro i lawr gan un o'r bysiau cyntaf a ddaeth i'r fro. Rhedodd i'r ffordd ger Capel Eban ar ddydd Sul, pan oedd tua

Minffordd' fod y gystadleuaeth yn ormod. Gwerthwyd y bysiau i'r cwmni. Cafodd fy nhad swydd gan Gwmni Crosville fel gyrrwr. Wedi'r cyfan, ni allai feddwl am waith arall ar ôl treulio cymaint o flynyddoedd ar y bysiau. Yn wir, ef gafodd y frainc o yrru y bws deulawr cyntaf i Lanberis. Bu'n gyrru bysiau Crosville am bum mlynedd cyn cael ei ddyrchafu yn 'Foreman'. Bu gyda'r cwmni wedyn am bron i ddeugain mlynedd. Felly treuliodd hanner can mlynedd ar y bysiau.

Arwel Jones
Pant Hywel
Penisarwaun

SEREMONI CYHOEDDI EISTEDDFOD MÔN 1990

Dydd Sadwrn, Ebrill 29 cynhelir Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Môn, Gaerwen a'r Cylch. Bydd gorymdaith yn cychwyn am 1 o'r gloch o Gapel Moreia (A5) i gae Glyn Garth.

Yr un diwrnod bydd cyngerdd cyhoeddi'r Eisteddfod uchod yng Nghapel Disgwylfa, Gaerwen am 7 o'r gloch.

Beth am ddysgu
dreifio gydag

**YSGOL YRRU
BETHEL**

Cysylltwch â
Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

BRYN
(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG
Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

CWM-Y-GLO

Gohebydd Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

APÊL EISTEDDFOD YR URDD DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Yng ngwyl Gyhoeddi yr Eisteddfod yng Nglynllifon ddydd Llun, Mai 1af, bydd Cwm-y-Glo yn gyfrifol am stondin 'Bob Peth'. Derbynir unrhyw gyfraniad yn ddiolchgar iawn gan Mr Richard Williams, prifathro'r ysgol.

Y GANOLFAN GYMDEITHASOL: Cyfarfu'r pwyllgor yn y Ganolfan nos Lun, Ebrill 17eg a phenderfynwyd cynnal Mabolgampau yn y cae chwarae ddydd Sadwrn, Gorffennaf 1af. Ceir mwy o fanylion yn nes ymlaen.

DR BARNARDO: Diolch i Mrs Marjorie Roberts, Mrs Sue Shaw, Nia Wyn Hughes a Carys Williams am gasglu £30 tuag at Dr Barnardo.

CYDYMDEIMLWN â Mrs A Hughes, Bryn ar golli ei brawd yng nghyfraith;

â Mrs Christine Jones, Dyffryn ar golli ei chwaer yng nghyfraith;

â Mr Leslie Orritt, Moranedd ar golli ei fodryb.

YN YR YSBYTY: Dymunwn well-had buan i Mrs M Williams, Goleufryn a Mr Fred Hnness, Groeslon, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH: Dymuna pwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiolch i Mr Lloyd Owen a Mrs Enid Price am eu cymorth noson y 'Bingo' a gynhaliwyd nos Fawrth, Chwefror 28ain.

YN EISIAU

Ysgol Feithrin Cwm-y-Glo ATHRAWES

i ddechrau mis Medi
Cysyllter â Mrs Sioned
Jones, Ffôn 872085

UNDEB Y MAMAU: Cyfarfu aelodau Undeb y Mamau yn Hafan Elan, Llanrug, nos lau, Ebrill 6. Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi Undeb y Mamau. Cafwyd adroddiad gan Mrs Taylor am y pwyllgor a gynhaliwyd yn yr Hen Ficerdy, Bangor, ar 9 Mawrth a thrafodwyd rhai materion eraill. Y gwr gwadd oedd 'Swyddog Stesion' Gordon Davies o'r Gwasanawth Tân. Cafwyd ffilmiau yn dangos sut y mae tanau yn dechrau yn y ty a

chafwyd cyngor gan Mr Davies beth i'w wneud pe bai hyn yn digwydd. Cafwyd noson ddiddorol iawn. Yn gofalu am y lluniaeth yr oedd Mrs M Latham, Mrs K Jones a Mrs J Side. Diolchwyd iddynt gan Mrs H Orritt. Rhoddwyd y swm o £7.50 at Apêl Lowri, Llanrug. Diolchwyd i Mr Davies gan Mrs S Edwards ac enillwyd y raffl gan Mrs H Orritt. Bydd y cyfarfod nesaf yn Hafan Elan, Llanrug nos lau, Mai 5. Y wraig wadd fydd Mrs J Ransom, Llanrug.

YSGOL GYMUNED CWM Y GLO CROESO: Croesawu'n ôl ydym, mewn gwirionedd, athrawes at Safon 1 a 2, sef Mrs Alwen Jones. Bu Mrs Jones yma cyn y Nadolig ac yn awr croesawn hi yn ôl i'n plith am ddau dymor, os nad mwy.

Croeso hefyd i ddau ddisgybl newydd i'r ysgol sydd wedi symud i fyw i Frynrefail. Gobeithio y bydd Rhys a Llyr Morris yn hapus yn ein plith ac yn gwneud llawer o ffrindiau newydd.

Cafodd yr ysgol gyfle, hefyd, i groesawu Mrs Howells yn ôl atom ar ymweliad. Yr oedd pawb yn falch iawn o'i gweld yn edrych mor 'nobl'! Diolch iddi, hefyd, am ei hanrheg i lyfrgell yr ysgol.

FFARWELIO: Mae Louisa Thornton wedi dechrau ar gyfnod yn Y Ganolfan Iaith ym Maesincla. Cyflwynwyd geiriadur Cymraeg iddi i'w chynorthwyo yn ei gwaith. Mawr obeithia pawb y bydd yn hapus yno ac y daw yn ôl yn Gymraes i'r carn.

PROFEDIGAETH: Cafodd plant yr ysgol brofedigaeth cyn y Pasg pan fu farw Branwen, y Gerbil. Efallai iddi dorri ei chalon ar ôl colli Mrs Howells. Beth bynnag pedd yr achos, cafodd gladdedigaeth barchus iawn.

NOFIO: Os byddwch mewn dwr dyfn ac mewn trafferth, galwch ar Gareth a Lola Davies. Mae'r ddau newydd ennill bathodyn arian am allu cynnal eu hunain ac achub eraill yn y dwr. Da iawn chi.

CRICED: Mae tri o fechgyn yr ysgol - Darren Williams, Terry Williams a Martin Parry wedi eu

dewis i gynrychioli tîm o Ganolfan Hamdden Arfon. Deallwn fod Viv Richards yn dal i grynu yn ei sgidi-au!

YR URDD: Dau gyfarfod sydd wedi bod ers yr adroddiad ddiwethaf. Cafwyd noson o chwarae gemau ar y cyfrifiadur ar Ebrill 5ed a gêm 'Rhowch i mi Gliw' yng ngofal lola, Donna, Sara a Bethan ar Ebrill 12fed.

CLWB POBOL Y CWM: Yng nghyfarfod Ebrill 6ed croesawodd y Llywydd, Mr Llew Hughes, ein gwr gwadd, Mr John H Hughes, Llanberis. Mae cael cwmni Mr Hughes bob amser yn bleser gan ei fod yn meddu dawn arbennig i ddifyrru ei wrandawyr. Rhoddodd sgwrs ar chwedloniaeth, ac eglurodd mor hanfodol yw dweud storïau oherwydd eu difyrwch. Ceir enghraifft glasurol yn y Mabinogion. Yn ychwanegol mae peth gwirionedd mewn aml i chwedl, a llawer ohonynt yn egluro enwau lleoedd fel as sydd yn ein cylch.

Diolchwyd iddo gan Mr Richard Roberts. Mrs Watkins a Mrs Chick ofalodd am y baned a Mr a Mrs H Pritchard roddodd y raffl.

CROESO i Mr Fred Owen, sydd ar ymweliad â'r ardal o Dde Affrig. Ymfudodd Mr Owen gyda'i deulu 66 o flynyddoedd yn ôl a dyma'r tro cyntaf iddo ymweld â'i hen ardal. Mae yn rhyfeddol mor dda yw ei Gymraeg, a synnodd cymaint o newidiadau sydd wedi digwydd yn y cylch. Un o deulu Llwyncoed yw Mr Owen, ac mae yn aros gyda'i nai Mr Glyn Williams yng Nghaernarfon.

CLWB IEUENCTID: Ddiwedd y mis yma (Ebrill) daw tymor y Clwb i ben. Fe lwyddwyd i ddilyn rhaglen ddiddorol ac amrywiol iawn ond roedd y gefnogaeth i rai o'r gweithgareddau a drefnwyd yn hynod siomedig. Er hynny cafwyd trip hynod llwyddiannus i'r Wyddgrug gyda aelodau Clwb Ieuencid Llanrug i wyllo'r rhaglen pobl ifanc 'Stid' yn cael ei recordio yn stiwdio HTV.

Buom yn ymweld â Chanolfan Hamdden Arfon ac yn ystod y Nadolig fe aeth rhai o'r aelodau i'r disgo a drefnwyd ar ran Clybiau Ieuencid Arfon yn yr Octagon, Bangor. Ychydig wythnosau yn ôl

cafwyd cyfle i sgïo ym Mhlas y Brenin, Capel Curig a bu i bawb fwynhau y profiad yn fawr. Ddiwedd mis Mawrth, bu'r Clwb yn gyfrifol am blygu'r Eco.

Ar ben hyn mwynhawyd nosweithiau difyr yn y Clwb a'r mwyaf poblogaidd ohonynt i gyd oedd pan y bu i Mr Len Jones o Ddeiniolen daro i mewn gyda'i offer codi pwysau. Gan i rai o'r genethod ddangos diddordeb mewn dawnsio disgo llwyddwyd i ddenu hyfforddwraig yn y maes yma i'w rhoi ar ben y ffordd. Ar ddiwedd y tymor fel hyn hoffai'r arweinydd ddiolch i'r Prifathro a'r lanhawraig am eu cyd-weithrediad parod dros y misoedd diwethaf.

NANT PERIS

Gohebydd: Ann Pleming,
'Dolwen', 8 Nant Ffynnon
(871457)

Pen-blwydd hapus i Mrs Sally Lloyd Jones, gynt o 3 Bro Glyder. Roedd yn 90 mlwydd oed ar Fawrth 25, mae yn awr yn byw gyda'i merch a'i mab yng nghyfraith yn Nhrefor.

GWELLA: Da gennym fod Mo Anthoine, Ty'n Ffynnon yn gwella ar ôl triniaeth law-feddygol yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Gwellhad buan hefyd i Mrs Marian Pritchard, Bronallt, a Mrs Eluned Owen, Dolwen.

DYMUNA Melfyn a Prydwen, Llys Awen, ddiolch i bawb am y llu anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas arian ar Fawrth 28.

BEDYDD: Brynhawn Sul y Pasg, bedyddiwyd Dylan, mab bychan Rhys a Rhiannon Llewelyn yng Nghapel Rehoboth gan y gweinidog, y Parch D J Pritchard, BA, BD. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Mrs J W Jones, Dwyfor. Diolch i bawb.

GAIR O DDIOLCH: Daeth llu o ardalwyr ynghyd i'r Cyngerdd yng Nghapel Rehoboth nos lau, Ebrill 6ed. Gwnaed elw o £459 tuag at Gronfa Alun Pritchard.

Diolch o galon i Hogia'r Wyddfa a Rosalind; Teulu Ty'r Ysgol; Lleisiau'r Gweunydd; Seindorf Arian Llanberis a phlant Ysgol Dolbadarn am eu cyfraniad arben-

Parhad ar Dudalen 19

CADW'N HEINI

Bob nos Fercher
Ysgol Gynradd
Llanrug

7 pm — 8 pm
Manylion pellach
gan Meryl Green,
Anedd Wen
Pontrug
Ffôn: Caernarfon
77149

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

CYWIRIAD: Yn y lle cyntaf mae'n rhaid cywiro rhai camgymeriadau a wnaethum yn nodiadau'r mis diwethaf.

Pan oeddwn yn sôn am y meddyg sy'n byw ym Mhlas Eryr, yn lle ei galw'n Dr Nora Marren fe'i henwais yn Noreen – sef enw ei chwaer. Yn rhyfedd iawn am ryw reswm anodd ei esbonio, yr oeddwn ar hyd yr amser yn meddwl mai Noreen oedd ei henw nes i mi weld y cyfeiriadau gan eraill o'i henw priodol.

ATGOFION: Tra'n sôn am deuluoedd Trefyn i fyny Ffordd y Garret fe anghofiais yn gyfangwbl am deulu'r Tomosiad oedd yn byw yn un o'r tai, wedi ail feddwl a derbyn cenadwri ar y ffôn, fe sylweddolais bod y teulu hwn yn adnabyddus iawn yn yr ardal. Fe gysylltir dau neu dri Owain â'r teulu – un ohonynt yn Llanberis, ac un arall yn nhai gwaelod Gallt y Foel. Fe gofir yr olaf yn fwyaf arbennig ar sail yr hyfforddiant a gyfrannodd i rai'n dysgu canu piano a harmoniw. Yn ychwanegol at hynny, fe gefais innau gwmni un arall o'r teulu – sef Ifan Thomas, pan oeddem yn perthyn i 'Gôr Chwarel Dinorwig' dan arweiniad yr amryddawn ddiweddar George Peleg Williams. Teithiem gyda'r Côr i gystadlu a chynnal cyngherddau mewn nifer o fannau, ac fe gofiais yn arbennig iawn myned i gystadlu yn Siop Lewis, Lerpwl, ac yna myned oddi-yno ar ôl pryd o fwyd i Eisteddfod daleithiol Pen-y-bont-fawr.

Ymdroellai'r ffordd heibio i lethrau serth gyda dibyn peryglus odditanom. Yn yr Eisteddfod arbennig honno roedd llwyfan wedi ei osod ar wellt wedi'i glymu'n fwndeli. Pwy bynnag a fu'n canu mewn lle o'r fath yn unig a all ddychmygu'r gwres oedd yno yn taro i lawr o nenfwd y babel – roedd hwnnw yn wir yn llethol, ac nid yn fuan yr anghofiem y profiad.

Fe fu eraill yn awgrymu y gallwn ysgrifennu nodyn neu ddau am yr athrawes yn perthyn i'r hen drefn oedd yn byw yn Nghongl-y-Mynydd. Dichon mai buddiol i mi fyddai ymatal gan bod eraill oedd yn hyddysgu o'i dull o addysgu wedi sôn amdani'n barod – rhai fel Mrs Gwladys Evans a Ms M E Jones, Ty'n Fawnog ac wedi dyfynnu enghreifftiau o'i harddull unigryw. Yr oedd hi'n un o'r athrawesau na chawsent hyfforddiant Coleg o gwbl, ond dibynent ar eu crebwyll eu hunain i lunio dull o addysgu'r plant oedd dan eu gofal.

MARWOLAETHAU: Wedi i mi anfon i mewn y copi o nodiadau'r mis diwethaf fe gefais yr wybodaeth bod rhai cyfeillion o Sardis yn ogystal wedi mynd i'r Crematoriwm i arwyl y diweddar Mrs Jennie Owen, Ty'n Fawnog gynt. Danghoseg pellach yw hyn o barch yr ardal i'r ymadawedig.

Newydd trist iawn i ni yn Sardis oedd clywed am farwolaeth Mrs Rhiannon Jones, Bangor. Aeth llawer blwyddyn heibio er iddi ymadael â Dinorwig ond serch hynny fe geisiai ddod yn gyson i Sardis pan gynhelid y prif wyliau crefyddol. Datganwn ein cydymdeimlad llwyr â'r teulu yn eu profedigaeth o golli cwmni y chwaer.

Y TYWYDD: Nid wyf yn cofio i ni gael tywydd tebyg i'r hyn a gawsom hyd yn hyn eleni. Mae popeth fel pe o chwith – pwl o heulwen yn gynnar ar y tymor, ac yna tywydd heb fod yn hindda nac yn storm. Ni allwn ddibynnu ar y tywydd i ddarparu rhyw lawer ymlaen. Hyd yn hyn ni chlywais ddim o ddeunod y gwcw. Tybed a yw hithau yn syrffedu at y tywydd? Parhawn i hyderu y daw gwell hin yn y man, ac y gallwn ffarwelio ag anhwylderau'r gaeaf gyda tymor y gwanwyn.

DIOLCH: Dymuna Mrs Margaret Jones, 5 Bro Elidir ddiolch am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati gan nifer o gyfeillion pan golodd ei thad, y diweddar Mr Alun Phillips.

HWYL HAF '89: Ydi mae'r amser wedi dod i ni fwrw ati i drefnu Hwyl Haf '89. Fel mae pawb yn cofio fe brofodd y fenter yn gryn lwyddiant y llynedd ac felly mae tipyn o edrych ymlaen am ei chynnal eto eleni. Er mwyn mynd ati i wneud y trefniadau angenrheidiol bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn y Ganolfan, **nos Fawrth, Mai 9fed am 7 o'r gloch**. Mae croeso i bawb sydd â diddordeb i gynorthwyo gyda'r trefniadau i ddod i'r cyfarfod yma.

CLWB CERDDED: A ninnau yn byw yng nghanol prydferthwch Eryri mae'n syndod clywed weithiau am gymaint o bobl yn dweud nad ydynt erioed wedi bod i fyny'r Wyddfa, nac ychwaith wedi cael y pleser o gerdded ar hyd y llwybrau cyhoeddus sydd yn frith o gwm-pas yr ardal. Fel ymgais i wneud yn iawn am hyn bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn y Ganolfan ar **nos Lun, 15fed o Fai am 7 o'r gloch** i sefydlu Clwb Cerdded. Felly pwy bynnag sydd â diddordeb mewn ymuno â chlwb o'r

fath dewch i'r ganolfan ar y 15fed.

Fel tamaid i aros pryd fel petai, mae Mr Rennell Williams, Tan y Fron, Fachwen wedi caniatâu i ni gynnwys y daith y bu iddo ef ei llunio ar gyfer un o gystadlaethau yr Eisteddfod Bentref a gynhaliwyd mis Rhagfyr y llynedd. Felly ar ddiwrnod braf yn ystod yr wythnosau nesaf beth am fentro ar y daith yma.

Cychwyn wrth y ganolfan a cherdded i fyny llwybr y Foel heibio i Gapel Sardis a rhroi i fyny Lôn Garret. Ar ôl cyrraedd Tan y Ffordd aros, ac edrych i lawr ar fae Caernarfon. Dyma olygfa odidog. Cario ymlaen wedyn i lawr heibio Tan y Ffordd tuag at dro Chwarel Fawr gan droi i'r chwith am yr Allt Ddu. Yna ymlaen i'r chwarel nes dod ar y fan olygfa. Edrych yn union o'ch blaen a gweld rhes o fynyddoedd gyda'r Wyddfa yn ben arnynt. Edrych i'r chwith ac fe welwch Lyn Peris a'r Bwlch. Wedi i chwi gael eich anadl ac edrych ar yr holl brydferthwch, edrych i'r dde a gwelwch bentref Llanberis gyda Llyn Padarn yn rhedeg i lawr am Ben Llyn gyda thref Caernarfon ac Ynys Môn yn y pellter. Yna mynd yn ôl wedyn at wastad y Mills (Ffiar Injan) a throi i lawr yr Inclên am waelod y chwarel.

Hanner ffordd i lawr yr ail Inclên fe ddown ar draws y barics lle'r arferai chwarelwyr o Fôn dreulio wythnos waith yn byw a chysgu yno. Yna dal ati i gerdded llwybr main nes cyrraedd Pont y Bala. Yna oddi yno tuag at Ysbyty'r Chwarel. Dilyn y llwybr sydd yn mynd heibio'r ysbyty ac i'r coed nes dod allan wrth Muriau Gwynion. Ar y llwybr yma fe geir sawl man aros, gyda meinciau i eistedd ar gyfer rhai sydd wedi blino, iddynt gael pum munud bach cyn mynd ymlaen ac i edrych ar yr olygfa fendigedig. Yna cario ymlaen heibio Muriau Gwynion a thynnu i fyny yn raddol am hen Chwarel Ty Club ac allan i ffordd Fachwen wrth Pen y Bryn. Cario ymlaen i fyny hyd nes cyrraedd yn ôl at y Ganolfan.

EGLWYS ST MAIR: Ers rhai misoedd bellach mae aelodau'r Eglwys wedi bod yn arbrofi rhywfaint ar eu gwasanaethau arferol. Unwaith y mis, ar y trydydd Sul o bob mis, a hynny yn y bore am 10.00 cynhelir Gwasanaeth Cymun teuluol sydd yn rhoi cyfle i

blant a'u rhieni ddod gyda'i gilydd i addoli. Yn ystod y gwasanaeth cenir emynau cyfoes sydd wedi eu hanelu yn bennaf at y plant ac mae cyfle i'r plant eu hunain gymryd rhan yn y gwasanaeth. Fel sydd yn gyffredin, y dyddiau hyn, criw bychan ffyddlon sydd yn mynychu'r gwasanaeth ac felly mae'r aelodau yn estyn gwahoddiad i bawb – pa enwad bynnag ac o bentrefi eraill os dymunant, i ymuno â hwy unwaith y mis fel hyn. Beth amdani? Bydd croeso arbennig yn disgwyl pawb a ddaw i'r gwasanaethau hyn.

CHWARAEON YSGOLION SUL CYLCH ARFON: Bu hogiau Ysgol Sul Eglwys St Mair yn cystadlu mewn cystadleuaeth pêl-droed 5-bob-ochr yng Nghanolfan Chwaraeon, Ffordd Bangor nos Wener, Ebrill 14eg. Bu iddynt lwyddo i ennill dwy gêm cyn mynd allan yn y rownd gyn-derfynol. Fe wnaethant gyfrif da ohonynt eu hunain. Da iawn hogia.

DIOLCH: Dymuna Jennie Jones, Buarth Newydd ddiolch o galon i'w theulu a'i holl ffrindiau, am y cardiau, y rhoddion a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra'n derbyn triniaeth yn yr Ysbyty. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yn ward Beuno, Ysbyty Gwynedd.

DYMUNA D R Jones, Bron Myfyr ddiolch yn fawr i bawb o'r teulu a'i gymdogion am y rhoddion a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Llauer o ddiolch hefyd i holl staff Ward Conwy.

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion i gronfa'r Eco.

£10: Di-enw

£5: Miss Glenys Williams, Ty'n Clwt, Deiniolen; Mr a Mrs E H Jones, Bryn Awel, Ffordd Belmont, Bangor; Mrs Nancy Jones, Madryn, Llanrug; Mrs Jane Roberts, Rallt Isaf, Penybont, Llanberis.

£3: Mrs Gwen Griffiths a'r teulu, Fron, Deiniolen.

£2: Jennie Jones, Buarth Newydd, Dinorwig; D R Jones, Bryn Myfyr, Dinorwig; Mrs Margaret Jones, 5 Bro Elidir, Dinorwig.

£1: Aled Jones, Bryntirion, Penisarwaun.

DINORWIG

Craith enfawr lwydlas front ar draws y bryn,
Ei phonciau'n adsain gyda gwaith a stwr,
Y noeth domeni olchant yn y llyn
Y llwch oddiar y llechi yn y dwr.
Ergydion glywir, llif a'r llech i lawr,
Yn ôl â'r dynion at eu gordd a'u rhaw
I weithio'r fargen, gwneud y cyfrif mawr
Drwy drin y clwtwaith, clirio'r baw.
I'r caban digysurus amser bwyd,
I ddarllen am y Sul, neu dynnu coes,
Rhaid gwneud eu sbort i liwio'r bywyd llwyd
A lleddfu llymder gwaith, yr ing a'r loes.
Y chwalfa ddaeth i'r chwarel fawr,
A dim ond trydan mud yw'r cynnyrch 'nawr.

Betty Rees Edwards, Gwlad-yr-Haf

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod misol Cangen Sefydliad y Merched Waunfawr, nos Iau, Ebrill 6.

Estynodd y Llywydd, Mrs Pat Parry, groeso yn ôl i'r cyfarfod i Mrs Katie Wynn Jones, a fu'n wael yn ddiweddar.

Cafwyd arddangosiad o goluro gyda'r Llywydd, Mrs Pat Parry yn eistedd yn y gadair i Mrs Ann Turner gael dangos ei dawn. Rhoddodd Mrs Turner gynghorion gwerthfawr ar sut i gadw'r croen yn ystwyth a meddal hefyd. Diolchwyd iddi gan Mrs Rosemary Bracegridle.

Rhoddwyd y raffl gan Mrs Betty Griffiths a'r enillydd oedd Mr Myra Ham. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mai 4.

CLWB GWYRFAL: Mawrth 30: Y gwestai yn y Clwb oedd y Cynghorydd J Thomas, Maer Caernarfon. Yn ei ffordd arbennig rhoddodd sgwrs ar ei waith a'i yrfa cyn ymddeol i'w gynefin yng Nghaernarfon. Dilchwyd yn gynnes iddo.

Ebrill 13: Cynhaliwyd y cyfarfod dan lywyddiaeth y Canon B Thomas. Penderfynwyd trefnu Noson Goffi gyda stondin ar Fai 5 a gwnaed apêl am y gefnogaeth arferol. Hefyd penderfynwyd yn unfrydol i gynnal ein cyfarfodydd yn fisol y tymor nesaf.

Y wraig wadd oedd Mrs M Vaughan Jones - ffrind cyson i'r Clwb. Cawsom sgwrs ddifyr ac addysgiadol iawn. Aeth â ni yn ôl i'r ganrif gyntaf pan ddaeth y Rhufeiniaid i'n rhan ni o Gymru yn dilyn breuddwyd Macsen Wledig, a ysbrydolodd gân anfarwol Dafydd Iwan - 'Ry'n ni yma o hyd'. Hefyd rhoddodd ragflas o'i hymweliad â'r Wladfa, gobeithiwn gael yr hanes yn llawn y tymor nesaf.

Ar Ebrill 27 daeth Mr Twm Morris i'n difyrro gyda'i gitâr. Gofynnir i'r aelodau sydd yn dod ar y trip i roi eu henwau a chyfraniad ariannol i'r Ysgrifennydd.

TRIP Y GYMDEITHAS LENYD-DOL: Bydd trip y Gymdeithas Llenyddol nos Fawrth, Mehefin 13 yn cychwyn o'r pentref am 6.15. Bwriedir ymweld â Ffynnon Cybi, Capel Helyg, Eglwys Llangybi, Eglwys Llanarmon ac un o'r hen blasdai yn ardal Chwilog. Yr arweinydd fydd Mr Dyfed Evans. Ar derfyn y teithio bwriedir cael pryd basged mewn gwesty. Erfynnir ar i'r rhai sydd yn bwriadu dod ar y trip roi eu henwau ar fyrder i Stanley Williams, Cefn Coed neu i Rol Williams, Ardwyn, 5 Pant y Waun, mor fuan ag sydd modd. Y gost am y noson gyfan fydd £3 - bargaen os bu un erioed! Cofiwch nodi'r dyddiad yn eich dyddiaduron - Mehefin 13.

CLWB BOWLIO: Yn ystod y mid diwethaf cynhaliwyd cys-tadleuaeth Cwpan yPasg. Enillydd

y gystadleuaeth unigol gan O T Jones, gyda Emyr Evans yn ail a'r gystadleuaeth parau gan Sion R Jones a O T Jones gyda Carys A Jones ac Alfie Jones yn ail. Mae'r diddordeb yn y Clwb yn dal i gynyddu ac aelodau newydd yn dal i ymuno.

LLONGYFARCHIADAU i Anna Williams, Tref Eilian ar ei dyweddiad â Henry;

i Meira Turner, Collfryn am fod yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth adrodd Eisteddfod y Ffôr;

i Mrs M Roberts, Bod Afon ar fod yn nain unwaith eto. Ganwyd merch fach, Lois, i Marilyn a Dafydd.

ADREF O'R YSBYTY: Croesawn Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eifion; Mrs E Jones, Bro Waun; Sian Llwyd, Dol-y-Coed; Mr H Westphall, Tref Eilian; Doctor Miles, Trefeddyg a Mrs G Jones, Tref Eilian adref o'r ysbyty.

Da deall fod Mrs Williams, Teganedd wedi gwella'n ddigon da i gael dod o'r ysbyty. Mae ar hyn o bryd yng nghartref yr henoed, Tyddyn Elan yn Llanrug. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati hi a phawb o'r pentref sydd yno. Da deall fod Meilir Gwynedd, Nant, wedi gwella, cafodd anaf i'w goes yn ddiweddar.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion at Mr Glyn Williams, Plas Glyn Afon a Sian Rowlands, Ty'n y Coed, sydd yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn adferiad iechyd buan i'r ddau.

CYDYMDEIMLWN yn fawr â Mr Emyr Evans, Cae'r Ffynnon ar golli ei frawd yn ddiweddar; â theulu y ddiweddar Mrs Gwen Hughes Roberts, Dol Erddi; hefyd â Mr Bill Lewis, Ael y Bryn ar goli wyr bach, Gavin Taylor o Bontnewydd ac hefyd Alan, Nigel ac Alvona ar golli nai bach.

DYNAMUNIADAU GORAU i holl blant a phobol ifainc y pentref fydd yn sefyll gwahanol arholiadau yn ystod yr wythnosau nesaf;

i Angela Parry, Bryn Golau yn ei swydd newydd fel gofawraig dos-barthiadau babanod yr ysgol;

i John Huws, Argoed, yn y ras farathon yn Llundain. Mae John yn rhedeg i gasglu arian ar gyfer Cynllun Oriau Hamdden Antur Waunfawr.

DIOLCH: Dymuna Kevin Roberts, Sw'n y Gwynt, ddiolch i'w deulu, cymdogion, ffrindiau a'r meddygon am bob caredigrwydd a dderbyniodd ar ôl y ddamwain ar Ynys Manaw.

DYMUNA Mrs Jennie Roberts, 9 Bryn Golau, ddiolch i'r prifathro, staff, plant yr ysgol a'i chyfeillion am y dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad o'i gwaith yn yr ysgol.

DYMUNIADAU GORAU i'r grwp pop, Bron a Methu, fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghwm Gwendraeth ddiwedd y mis.

BEDYDD: Yn Eglwys Sant Ioan, gyda'r Parch Barry Thomas yn gwasanaethu, bedyddiwyd Wenna, merch fach Mandy a Keith, Ael y Bryn.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein dymuniadau gorau i Andrew Parry, Bro Waun sydd yn yr ysbyty ym Manceinion.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Ganolfan nos Iau, Mawrth 23. Y gwr gwadd oedd Mr Emyr Jones, Caernarfon a chafwyd sgwrs ddifyr ganddo. Diolchwyd iddo gan Miss Bessie M Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Mary Vaughan Jones a'r enillydd oedd Mrs Gwyneth Griffith.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos

Iau, Ebrill 27 a bydd y noson yng ngofal Mrs Mary Vaughan Jones.

YSGOL SUL BETHEL A CHROESYWAUN: Fe fu plant y ddwy Ysgol Sul yn brysur iawn y pythefnos diwethaf yn chwarae Pêl Rwyd a Phêl-droed. Gemau a drefnwyd ar gyfer ysgolion Sul lleol. Roedd yna saith tîm o'r Waun yn cystadlu, ac fe aeth dau ymlaen i chwarae yn y gemau terfynol ym Mangor nos Wener, Ebrill 14eg.

Yn anffodus colli wnaeth y ddau dîm ond roeddynt wedi chwarae yn ardderchog ac roedd digon o gefnogaeth ar y noson gyda Jabas yno i gyflwyno'r gwobrau. Y ddau dîm oedd:

Dan 11 oed: Ceirion Williams, Andrew Davies, Deian Elfryn, Gavin Owen, Huw Gwilym a Kevin Davies.

Dan 18 oed: Osian Gwynedd, Dylan Jones, Neil Owen, Telor Iwan a Kevin Tame.

Mae'n rhaid llongyfarch y timau eraill, fe wnaethant i gyd chwarae yn dda iawn. Mae diolch mawr i Mrs Christine Davies a Mrs Carys Jones am hyfforddi genethod y timau pêl rwyd, a diolch hefyd i'r rheini a aeth â'r plant i'r gemau.

Da iawn chi blant am drio eich gorau.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth: £40: Haydn Jones, Rhandir Mwyn; £25: T J Griffith, Ty'n Ronnen; £10: Llinos Dinwiddy, Glyn Garth.

CLUST I BRYDERON GWEITHWYR

Mae nifer o weithwyr lleol sydd wedi bod mewn cysylltiad â chynghorydd cymuned yn ddiweddar yn bryderus fod dynion lleol a gyflogir ar gynllun ffordd osgoi Conwy yn cael eu diswyddo o flaen gweithwyr o'r tu allan i'r ardal a ddaeth yno gyda'r prosiect.

Mae Eurig Wyn o'r Waunfawr wedi cysylltu â Chymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru ac maent yn archwilio'r sefyllfa.

Ysgrifennodd Mr Wyn hefyd at Wyn Roberts AS Conwy, yr Isysgrifennydd Gwladol, sydd â chyfrifoldeb arbennig am briffyrdd, yn galw amo i adolygu'r sefyllfa. Dyma ran o'i lythyr at Wyn Roberts.

"Mae nifer o deuluoedd Gwynedd gyfan yn dibynnu'n llwyr ar yr incwm a delir iddynt drwy weithio ar gynllun y ffordd osgoi. Byddai'n drychineb o'r mwyaf pe baent yn cael eu diswyddo o flaen gweithwyr eraill. Mi fuaswn yn falch iawn o gael gwybod gennych pa amodau a osodwyd ar gwmnïau sy'n ymwneud â'r cynllun wrth gyflogi gweithwyr lleol."

Yn ôl Mr Wyn, os ceir ar ddeall bod canllawiau yn cael eu hanwybyddu, yna bydd yn galw ar Gymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru i drefnu cyfarfod gyda chynrychiolwyr bob ochr yn y mater, a hyny yn ddi-oed.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**



**DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

**AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.**

**EMYR LL.
PARRY**

M.S.S.CH., M.B.CH.A.

**CHIROPODIST
GWASANAETH
CARTREF**

**57 Glanffynnon
LLANRUG**

**Ffôn: (0286) 5754
(Gyda'r nos)**

PWY A'M DWG

Y Gwalch

"Mae arna i isio i ti ddwad hefo fi i'r fynwant," medda fy nhad wrtha i rhyw ddiwrnod pan oeddwn i yn yr hen ffarm. A mynd wnaethon ni, ac yr oedd ganddo fo far haearn ar ei gefn. Ar ôl cyrraedd Llanddeiniolen gerllaw claddfa fy hen bobol i, gyrrodd y bar i'r ddaear.

"Yn y fan yma yr ydw i angan cael fy nghladdu yli," medda fo.

Ac yno mae o ers tro bellach hefo fy mam, ac amyn nhw mae 'na wenithfaen ddarfu ni loesi o ardd eu bwthyn nhw ar ôl iddynt adael yr hen ffarm.

Pan oeddwn i yn y fynwant ers dim llawar roeddwn i yn meddwl am yr achlysur, ac am yr adeg rheiny y byddwn i'n mynd yno yn yr haf hefo mam i dwtio'r beddi.

Roedd pobol yn rhoi diwrnod i'r orchwyl honno ac yn mynd a chnyswd hefo nhw. Roeddwn ni yn cael dwr poeth yn Nhy Llan Ucha rwy'n cofio, i sgwrio'r llechi ac i wneud te. Ac yn aml iawn roedd yna rai eraill yn gwneud yr un orchwyl, ac mi fyd-dan yn eistedd ar y cistia i gael sgwrs a phanad, a phob man yn dawl, ac yr oedd gan bawb ei hanesion eu hunain am y meirwon.

Roedd gan fy nhad, yn yr hen ganrif, ewythr yn byw yn y Felinheli, ac yr oedd o'n gaptan llong ar y môr. Ar un o'i fordeithiau pell, mi fuo farw ddyliwn i, ac mi cludwyd o bob cam adra i gael ei gladdu, ac rhag hudo bwystiflod rheibus yr aig, roedd o wedi cael ei roi mewn arch blwm, a honno wedi ei chrogi ar y mast. Wedi glanio, trosglwyddwyd ei gorff i arch gyffredin i'w gladdu yn nhir ei blwyf, ond cadwyd yr arch blwm mewn cwt yn yr ardd, ac iddi, yn ystod amsar, roedd pob math o gelfi yn cael eu taflu o law, ac yr oedd o'n beth cyffredin ddyliwn i, pan oedd aelod o'r teulu yn holi ble roedd rhyw erfyn, iddo gael yr atebiad, 'Yn arch nhad'.

Yn y gaeaf fodd bynnag yr oedd natur y fynwant yn newid pan

â chryman. Ar nosweithiau felly yr oeddwn yn troedio yn dinfain am y giat, a'r adag honno - am fy mod wedi darllan hanes Hywel Sele yn rhy aml efallai - roeddwn i'n credu fod yna ellyllon yn trigo yn yr ywen.

Dydwn i ddim wedi bod yno eto hefo bar haearn er ei bod hi'n bryd i mi fynd, ond yn ddiweddar roeddwn i yno yn claddu rhyw gymydog, ac wedi oedi ymysg y beddau. Roedd yr offeiriad yn digwydd bod wrth y porth a galwais arno.

"Sgynoch chi funud ar led ymyl fcar?" Ac mi ddaeth ar draws.

"Yn y fan yma rydw i isio fy nghladdu ylwch," medda fi, "hefo'r hen ffarmwrs. Faswn i ddim munud yn ddedwydd yn y pendraw 'na hefo'r petha ifanc 'na."

"Mi gewch," medda fo fel'na, "os caf i fyw."

"Gofalwch ych bod chi'n cael," medda fi, "neu mi riportia i chi i'r Esgob."

Roedd y llecyn hwnnw gerllaw bedd pump o blant bach o Gapal Seion, heb eu henwi, a fuont farw yn yr hen Ganrif drwy haint neu lwgfa. Doedd yna ddim ond enwau'r rhieni ar y lechan, a phe bawn i'n gwybod beth oedd tyn-ged honno, mi faswn wedi sylwi mwy ar rheiny.

Roedd yna griw yr adag honno wedi cael shanghai yno i dwtio'r fynwant - gorchwyl ddifai iddyn nhw mae'n siwr. Tra yr oeddwn nhw'n gwneud hynny, doeddwn nhw ddim yn gwneud dim arall. Ond erbyn gweld, roedd yna rhyw gythreuliaid wedi defnyddio pen gwenithfaen fy rhieni yn drafal i naddu cerryg, ac yr oeddwn nhw wedi pentyrru gwellt Medi yn erbyn llechan fy nhaid ac wedi ei oeddwn ni yn mynd o dan ywen W.J. Gruffydd i'r Hwylod Weddi. Doedd yna ddim ond amball i amlinall o gist a maen i'w weld yn y gwyll, ac ar fin y rhodfa, feddfaen Catherine Roberts, Y Fron Chwith, a laddwyd gan ddyn

danio fo, nes yr oedd honno fel ochr simdda. Ond yr ysbeiliaid mwya oedd y ffaith fod carreg y plant wedi diflanu yn llwyr, o fed-dwl fod eu rhieni mae'n siwr gen i, yn y cyfnod hwnnw, wedi byw yn fain a chlemio i gael nod ar fedd y creaduriaid bach yn y lle cyntaf.

Nid yn yr ywen mae'r ellyllon yn trigo erbyn hyn ddyliwn i. Ond mae'n siwr ei bod hi'n llawn cystal i bawb na ddois i ddim ar eu traws nhw yn y weithred. Pan fyddai i yn y fangre yna mi fydd gen i gryman yn fy llaw mor aml a dim. Mae hanes yn ail adrodd ei hun, medda nhw - weithia.



PETHAU'N DECHRAU DDYDD LLUN

Mewn llai ne deufis o amser bydd sawl carafan, car a bws yn llawn o Gymry yn gwneud eu ffordd i gornel bach o Gymru wledig - Cwm Gwendraeth. Ond cyn i chi fynd ati i gynllunio faint o'r pacio y bydd raid ei wneud fore Llun er mwyn teithio yn ystod y dydd, a dadbacio yn y nos ar gyfer bod yn barod ar fore Mawrth yr Eisteddfod, MEDDYLIWCH ETO! Pam? Bydd yn rhaid i chi bacio Nos Sul! Am y tro cyntaf erioed mae un o wyliau ieuencid mwyaf Ewrob yn mynd hyd yn oed yn fwy ac yn dechrau ar y dydd Llun. Pa gystadlaethau sydd ar y dydd Llun? A yw'r amseru traddodiadol wedi newid? Dyma i chi rywfaint o wybodaeth.

Dydd Llun, Mai 29

Cystadlaethau canu dan 8 oed ac unawdau offerynnol dan 12 oed, cystadlaethau i ysgolion neu unedau addysgol arbennig, dawn-sio disgo a chyflwyniadau dra-

matig dan 12 oed.

Dydd Mawrth, Mai 30

Cystadlaethau dan 12 oed a dawn-sio gwerin dan 10 oed.

Dydd Mercher, Mai 31

Cystadlaethau 12-15 oed a phartïon Adranau Pentref dan 12 oed. Dawnsio creadigol dan 12 oed.

Dydd Iau, Mehefin 1

Cystadlaethau dan 15 oed Blwyddyn 1, 2 a 3, Ysgolion Uwchradd.

Dydd Gwener, Mehefin 2

Cystadlaethau 15-19 oed, Blwyddyn 4, 5 a 6 Ysgolion Uwchradd. Cyflwyniad dramatig, sgets. Sylwebydd y Flwyddyn.

Dydd Sadwrn, Mehefin 3

Cân roc, serch dan 25 oed. Cystadlaethau 14 i 25 oed i Aelwydydd Pentref. Rhaglen nod-wedd 14-25 oed. Siarad cyhoeddus. Noson Lawen. Cystadlaethau dan 25 oed.

Bydd tocynnau Pafiliwn yr Eisteddfod ar werth am £4.00 y dydd.

CEUNANT

Gwenno Parri, Morawel

GWELLHÂD: Da gennym fod Mr W Pritchard, Glasfryn, yn gwella ar ôl ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLIWN â Mr Owen Jones, Y Garth a Mr Robert Jones, Penhafodlas yn eu profedi-gaeth o golli eu brawd-yng-nghyfraith.

CYMEITHAS ADDYSG YR AMGYLCHFYD - GWYNEDD Ein Treftadaeth Arfordirol

Ymweliadau maes a safleoedd arfordirol o ddiddordeb hanesyddol a naturiaethol. Y daith o dan arweiniad Gwenan Davies, Swyddog Arfordirol Ynys Môn. Dydd Sadwrn, Mehefin 3ydd, 10.30 a.m. Cwrdd ym maes parcio yr Antelope, ger Pont Menai.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser gan Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff.

DAFYDD JONES

SAER/JOINAR
2 Tai Caledffrwd
Clwt-y-Bont
Ffôn 872424

Gwneud a gosod grisiau, ffenestri, drysau etc.



Dim un
Joban rhy
fach!

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau hyn fod ar gael yn eich siop lyfrau lleol neu eich lyfrgell.

AGWEDDAU AR HANES FFESTINIOG YN Y DAU-DDEGAU
Cyril Parry
Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd. 80c.

Portread o'r gymdeithas yn ardal Ffestiniog wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf gan un o feibion yr ardal. Darlith Flynyddol Llyfrgell Blaenau Ffestiniog 1989.

Y BEIBL A PHLANT

Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol. £2.00

Llyfr yn cyflwyno ffyrdd newydd, cyfoes o ddefnyddio'r Beibl gyda phlant mewn sefyllfa Gristnogol. Fe'i bwriadwyd ar gyfer rhieni, athrawon, gweinidogion, arweinyddion ieuencid a phawb sy'n defnyddio'r Beibl.

CLANDRO

Geraint Williams

Gwasg Gomer. £1.95

Posau mathemategol ac eraill i gosi meddwl pob oedran. Cartwnau gan Roger Bowles.

CARI WYN - DITECTIF Y GANRIF!

Jacqueline Wilson

Addas. Gwenno Hywyn

Gwasg Gwynedd. £2.95

Caiff Cari Wyn flas ar waith ditectif wrth iddi chwilio am, ymysg pethau eraill... fabi coll! Nofel i'r ardddegau.

Cyfres Alffi:

TRAED ALFFI

Shirley Hughes

Addas. Tegwyn Jones

Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, Cyf. £1.50

Mae Alffi'n cael pâr o esgidiau melyn sgleiniog i stompio yn y glaw a'r llaid ond daw i ddeall cyn hir fod 'na dipyn o grefft ynghlwm wrth eu gwisgo nhw!

Cyfres Darllen am Wyddoniaeth:

3. GWRES, TRYDAN AC ELECTROMAGNETEG

Siân Gruffudd (Addas.)

D Brown a'i Feibion Cyf (CBAC) £2.50

Cyfres sy'n ategu cyrsiau gwyd-

doniaeth sylfaenol blynyddoedd cynnar yr ysgolion uwchradd. Lluniau a diagramau lliw a du-a-gwyn.

Cyfres Llawlyfrau'r Llew CRED Y CRISTION

John Balchin

Addas. Arfon Jones

Gwasg Efengylaidd Cymru. £3.95

Llyfr sy'n amlinellu credoau canolog y ffydd Gristnogol ac yn dangos y modd y'u cymhwysir i'n byw beunyddiol. Lluniau lliw.

Cyfres Llên y Llenor:

IOLO GOCH

Dafydd Johnston

Gwasg Pantycelyn. £2.50

Y gyfrol ddiweddaraf mewn cyfres sy'n edrych ar fywyd a gwaith rhai o'n prif lenorion.

Cyfres Pwy oedd Pwy:

PWY OEDD PWY 5

D Hywel E Roberts

Cyhoeddadau Modern Cymreig (cyf) £2.25

Cyfeirlyfr yn cynnwys bywgraffiadau cryno o bobl sydd wedi ac yn cyfrannu i fywyd Cymru. Rhai lluniau du-a-gwyn.

CHWEDLAU GWERIN CYMRU MODERN FOLK TALES

Robin Gwyndaf

Amgueddfa Genedlaethol Cymru. £6.95

Llyfr dwyieithog yn cynnwys dro s 60 o chwedlau gwerin a llawer o wybodaeth am arferion gwerin Cymru. Cyfrol ag iddi apêl eang. Lluniau du-a-gwyn gan Marged Jones.

Y GIANGSTER COLL

Bob Eynon

Gwasg y Dref Wen. £1.95

Nofel i ddysgwyr ac i Gymry Cymraeg ac iddi gefndir arswydus byd y 'Mob'.

GWARCHOD PAWB!

Jennifer Cole

Addas. Hazel Charles Evans

Cyhoeddiadau Mei. £2.75

Mae rhieni Sioned, Catrin a Mali yn mynd ar wyliau ac yn gadael y tair gartref heb neb i'w gwarchod. Ond dyw rhyddid ddim yn fêl i gyd... Nofel i'r ardddegau.

YR HERWGIPIWR: FFILM GAN BREN-JO

Siân Lewis

Gwasg Gomer. £2.25

Gan Joel mae'r syniad ond gan Brenig mae'r camera fideo! Daw'r ddau at ei gilydd i wneud ffilm. Nofel gyffrous i blant 9-11 oed.

LLYDAWEG FEL LLYDAWR

Padrig An Habask

£3.00

Gwersi dysgu Llydaweg sy'n cyd-fynd â llyfr Rita Williams Cyflwyno'r Llydaweg, ar gyfer y rhai na all fynychu dosbarthiadau dysgu Llydaweg.

MORUS MIHANGEL

Mair Wynn Hughes

Gwasg y Dref Wen (CBAC) £2.75

Cyfrol o storjiau i blant am deulu o Fôn sy'n rhoi cartref i letywr anghyffredin iawn, sef Morus, y mochyn bach direidus.

PARTI'R ELIFFANT A STORIAU ERAILL

Paul Biegel

Trosiad gan Mairwen Gwynn

Gwasg y Dref Wen. £2.50

Casgliad o storjiau yn llawn hwyl a dychymyg gan un o awduron plant mwyaf poblogaidd Ewrop.

Y PENDOLCWYR: HELA'R BWGAN

Christian Denayer ac Andre-Paul

Duchateau

Addas. Sioned Davies

Cyhoeddiadau Mei. £3.50

Stori i blant ar ffurf cartwn lliw, yn llawn o antur a chyffro.

POBL Y CWM

B.B.C. Cymru. £1.00

Llyfryn dwyieithog yn llawn lluniau lliw yn adrodd pytiaid o hanes trigolion Cwmderi.

PRINS YR INJAN FACH

Mair Wynn Hughes

Gwasg y Dref Wen (CBAC) £2.25

Saith stori am Prins, yn injan sy'n tynnu trê'n bach yr Wyddfa, a'i ffrindiau, Pitar Porcyn a Byrti Broga. Lluniau du-a-gwyn.

Project Chichester:

5. ARCHWILIO'R BEIBL

6. LLYFR Y CRISTNOGION

Peter Curtis

Addas. Gwenda Roberts
Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol. £2.50 yr un.
Dau lyfr sy'n trafod y Beibl a'i gynnwys. Bwriadwyd y gyfres yn bennaf ar gyfer disgyblion addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd.

SES

Frances Thomas

Addas. Dylan Williams

Gwasg Dwyfor. £2.95

Mae Ses yn olygus, yn wahanol, ac yn tynnu merched fel maged - ond pwy ydy o? Nofel i'r ardddegau.

SGILIAU BEICIO

Cliff Lee

Cyf. Eurig Williams

British Institute of Traffic Education Research. £2.60

Cywaith byr ar theori beicio i ysgolion yn cynnwys pump uned yn ymwneud â'r pwnc, fel gofalu am eich beic, peryglon beicio, ac ati.

TRIP NED PUW

John Burningham

Addas. Emily Huws

Gwasg y Dref Wen (CBAC) £4.95

Llyfr lluniau lliw a stori addas i'r plant iau sy'n addasiad o'r clasur Saesneg, Mr Grumpy's Outing.

WELA I DI!

Jean Ure

Addas. Elin Dalis

Gwasg Gomer. £3.50

Roedd Carys yn anhapus ac anfodlon ei byd, ac ar ben hynny, yn casau meddwl am rannu'i chartref â lodjer! Ond nid lodjer cyffredin mo Huw... Nofel i'r ardddegau.

YNYS Y MORLOI

Cit Gruffudd

Gwasg y Dref Wen (CBAC) £2.40

Anturiaethau Carys, Meic a Pry s ar eu gwyliau yn Sir Benfro, yn darganfod dirgelwch ar yr ynys a gweithgarwch amheus tri cymeriad rhyfedd. Nofel gyffrous i

Parhad o Dudalen 15

nig. Diolch i Dei am arwain y noson a Terry a Pete Jackson am y Fideo.

Diolch am yr holl gyfraniadau sydd wedi dod i law a pharodrwydd ardal yr Eco i gefnogi'r Gronfa yma.

**Wavell
Roberts**
CIGYDD

**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

DAFYDD WIGLEY YN CROESAWU ADDEWID O FFURFLENNI ETHOLIAD EWROP DWYIEITHOG

Dywedodd Dafydd Wigley, Aelod Seneddol Arfon, ac Is-Gadeirydd Etholiadau Plaid Cymru, ei fod o'n croesawu'n fawr addewid y Swyddfa Gartref eu bod nhw am sicrhau darparu ffurfleenni dwyieithog ar gyfer eu defnyddio yn Etholiad Ewrop a gynhelir ar 8 Mehefin eleni.

Yn ei lythyr at Mr Wigley, dywedai Douglas Hogg, y Gweinidog Gwladol yn y Swyddfa Gartref:

"Diolch am eich llythyr at Douglas Hurd yn holi ynglyn â deunydd etholiadol yn Gymraeg. Sylweddolwn yn llawn bwysigrwydd sicrhau fod deunydd o'r fath ar gael yn rhannau Cymraeg y wlad, ac mae ffurfleenni cofrestru etholiad ac etholiadol yn cael eu darparu yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân pa bryd bynnag fo hynny yn addas ac yn ymarferol.

"Mae Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Ffurflenni Cymraeg) a Gorchymyn Etholiadau Senedd Ewropeaidd (Ffurflenni Cymraeg) ar hyn o bryd yn cael eu paratoi. Bydd y gorchymynion hyn yn nodi ffurf Gymraeg neu ddwyieithog nifer o ffurfleenni gan gynnwys yr amryfal Ddatganiadau Adnabyddiaeth sy'n cael eu defnyddio yn etholiadau Seneddol ac Ewropeaidd. Bydd o ddiddordeb i chi wybod fod ffurfleenni cais diwygiedig ar gyfer pleidlais absen, a fydd yn cael eu rhannu i swyddogion cofrestru etholiadol maes o law, ar gael yn Gymraeg.

"Bydd swyddogion yma yn ysgrifennu at Swyddogion Etholiadol Gweithredol yng Nghymru pan ddaw'r Gorchymynion hyn i rym. Byddant yn tynnu sylw'r Swyddogion at yr angen fod y ffurfleenni hyn ar gael yn Gymraeg gogyfer ag Etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mehefin.

CYNHADLEDD I FERCHED CYMRU

Mewn cynhadledd a drefnwyd gan Gynulliad Merched Cymru ym Mhlas Menai, ddydd Sadwrn, Ebrill 1, disgrifiwyd gwaith Uned Ryng-Asiantol Heddlu Gogledd Cymru. Eglurodd yr Arolygydd Elfed Roberts a'r Heddgaidwad Gwenno Jones y modd y gobeithir sefydlu cynllun cynnal dioddefwyr trais yng Ngwynedd a Chlwyd. Bydd pwyllgor o wirfoddolwyr yn gyfrifol am weithredu'r cynllun gyda chefnogaeth yr heddlu. Ni chyfeirir dioddefwyr heb eu caniatad, a gobeithir y bydd y cynllun yn gymorth i liniaru effaith y profiad i'r rhai sydd wedi dioddef oherwydd troseddau treisiol.

Yr ail siaradwr oedd y Meddyg Deirdre Hind, Cyfarwyddwr Bron Brawf Cymru a soniodd am y bwriad i sefydlu gwasanaeth cynhwysfawr archwilio'r fron trwy Gymru. Bydd pum uned symudol, ar gost o £120,000 yr un, yn cael eu prynu, a bydd tîm o nyrsus, radiograffwyr a radiolegwyr cymwysiedig yn gyfrifol amdanynt. Gobeithir y bydd pob merch a wahoddir i fynychu'r uned yn ymateb gan mai ym Mhrydain y mae'r canran uchaf o farwolaethau o ganer y fron yn y byd. Rhwir y cynnig cyntaf i ferched dros hanner cant gan mai ymhlith merched o'r oedran yma y ceir y nifer uchaf o achosion o'r celfyd. Ond bwriedir changu'r gwasanaeth i bob oedran gynted

ag y bo modd.

Yn y prynhawn, disgrifiodd Mrs Eimar Williams y modd y mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn ceisio integreiddio plant anabl i'r cylchoedd meithrin. Cymeradwywyd y fenter deilwng hon gan y gynhadledd.

Daeth y rhaglen i ben gydag adroddiad gan Mr Martin Gill a Miss Eleri Davies o'u gwaith fel therapyddion Drama a Cherdd gydag unigolion â nam meddyliol. Dangoswyd fideo o ddatblygiad plentyn awtistig dros bedwar mis a brofai lwyddiant y rhaglen.

Talodd Mrs Isabel Wilson, Cadeirydd Cangen Gwynedd o Gynulliad Merched Cymru, y diolchiadau i'r siaradwyr, a diol-

chodd i Miss Lucille Hughes, yr ysgrifennydd, am ei gwaith yn trefnu'r gynhadledd. Mynegodd foddhad o weld cynifer o gynrychiolwyr mudiadau merched yn ogystal ag unigolion yn y gynhadledd, ynghyd â Mrs Elizabeth Charles, Cei Newydd, Cadeirydd Cynulliad Merched Cymru, a Miss Beatta Brookes, Aelod Seneddol Ewropeaidd Gogledd Cymru.

Croesewir, fel aelodau o'r Cynulliad, fudiadau, grwpiau ac unigolion o Gymru sy'n awyddus i weld merched yn cyflawni eu llawn addewid.

Yr Ysgrifennydd Aelodaeth yw:

Ms Heulwen Humphreys,
Wern y Wylan,
Gwbert Road,
Aberteifi SA4 31AE

Parhad o'r Dudalen Gefn

Rhoddwyd 300 o frithyll yr enfys yn Llyn y Dywarchen ar y 7fed o Ebrill, ac mewn cystadleuaeth arno ar y 16eg fe ddaliwyd 40 hyd at 13/4 pwys.

Yr enillwyr oedd: dan 14 oed: Tristan Bevan, Rhosisaf; 14-18: Sara Roberts, Seion; Oedolion: Gwynfor Jones, Llanrug.

Ar y 17eg fe agorwyd y llyn i'r aelodau'n gyffredinol ac fe ddaliwyd 47. Yn anffodus deallaf y bydd rhai aelodau yn gorfod ymdangos o flaen y pwyllgor am gadw mwy na'r nifer y mae'r rheolau yn ei ganiatau, sef 4 y dydd.

Deallaf hefyd fod rhai sydd heb ymaelodi eleni gan gwyno fod y tâl yn rhy uchel. Eu dadl yw y dylid fod tocynnau rhad ar gael i bysgota rhai darnau o'r afonydd a rhai llynoedd. Pe bai y rhain yn aros i feddwl, byddent yn sylweddoli na fyddai'n bosib iddynt fforddio i sgota o gwbl pe bai consortiwm o Loegr wedi llwyddo i brynu'r dyfroedd yn hytrach na'r gymdeithas. Mae'r gymdeithas yn defnyddio'r arian i sicrhau mwy o ddwr o dan eu rheolaeth. Rwy'n siwr fod trigolion Cernarh yn Nyfed yn cytuno â ni, gan fod darn o'r Teifi sydd wedi ei sgota ganddynt erioed, bellach wedi ei werthu i gonsortiwm o Loegr am £400,000.

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**
**Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau**
**44 Glanffynnon
LLANRUG**
Caernarfon 3513



Parhad o'r Dudalen Flaen

caled wedi talu ar ei ganfed iddo. Meddai'r datganiad am Marc, "Mae'r fyddin angen sgŵyr medrus, yn arbennig ddynion sy'n medru symud yn gyflym draws gwlad mewn eira."

Ymunodd Marc, sy'n fab i Gwyndaf a Meinir Williams, Bethel â'r fyddin ym mis Hydref 1983. Mae'n gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail ac yn gyn-aelod o Gadetiau Caernarfon.

Dechreuodd ei ddiddordeb mewn sgŵo pan oedd yn filwr iau ac erbyn hyn, mae wedi bod yn cystadlu am bedwar tymor. Mae Marc hefyd yn mwynhau cyfeiriadu, gyrru a snwcer.

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Cyfarfod Mai 17 am 7.15 pm
Oriol Eryri, Llanberis
Ffilm 'Chwarel Dinorwig
yn Nechrau'r Ganrif'
gan y Bwrdd Canolog
Cynhyrchu Trydan
a'r

CYFARFOD BLYNYDDOL
Dewch yn llw - aelodau hen a newydd, Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Maurice Jones, Meillionen, Cwm-y-Glo. Ffôn: Llanberis 870 466



I weled ein crôg fasgedi - a'r grug
Sydd mor grand, a pherthi
O goed fyrdd, i wyrdd erddi
Dowch oll i'r Antur, da chwi

CANOLFAN ARDD ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Am flodau gardd i harddu - a llysiau
Sy'n llesol i'r teulu
Ewch heibio i archebu
Yno lwyth planhigion lu

* GRUG
* ALPAU
* PERTHI
* LLYSIAU

Gwasanaeth Llogi Cerbydau

SEGONTIUM CAR . VANHIRE

Cerbydau Pickup, Luton Cargo
a Bysus Mini

Hefyd Gwasanaeth Glanhau Ceir
**MODURDY LLEIOD,
CAERNARFON Ffôn: 2013**

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir (831043)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fawrth 30 dan arweiniad Mrs Hannah Jones. Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a darllenwyd y llythyr misol. Croesawyd Mrs Dorothy Thomas yn ôl i'n plith.

Penderfynwyd trefnu i fynd i'r Noson Lawen yn Llandudno ym mis Mai. Mrs Betty Humphreys fydd yn ein cynrychioli yn y ddau Sefydliad yn Neuadd Albert yn Llundain mis Mehefin.

Y wraig wadd oedd Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr a chafwyd sgwrs a sleidiau diddorol dros ben ar Y Wladfa (Patagonia). Diolchwyd i Mrs Jones ac i'r gwestwagedd gan Mrs Katie Williams a Mrs Jan Davies. Y gwestwagedd oedd Mrs Jane Jones a Mrs Eluned M Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Dilys Phillips.

HANFODION CYMORTH CYNTAF Adran Cadet: Dylan W Davies; Owen Tudur Davies; Aled Wyn Hughes; R Stephen Edwards; Jason Bryniog Jones; Steven W Nisbet; Derfel Owen; Euron Thomas; Eifion Owen Jones; Elaine Bee; Sandra J Nisbet; Carys M Parry; Iona Vaughan; Gail M Tanfield; Angela Willis.

Dydd Mawrth, Mawrth 21 roedd rownd derfynol Gwynedd o'r Cwis Atal Tân yn cael ei gynnal ym Mhlas Menai. Yr oedd 5 tîm. Daeth tîm Llanberis yn ail gyda phob cadet yn cael tarian a thystysgrif.

Y tîm oedd Euron Thomas, Olwen Tudur Davies, Aled Wyn Hughes, Stephen Edwards a Jason Bryniog Jones.

BRIGÂD AMBIWLANS ST IONA: Mewn arholiad yn ddiweddar cafodd y canlynol dystysgrif:

Adran Oedolion: (FAW and White Cross course) Bernard Evans; Stanley W Griffiths; Mary Lynn Carr; Gwilym A Owen; Iona Jones; Nia Wyn Jones; Alwena Hughes Jones; Brenda Roberts.

Tystysgrifau lechyd a Glanweithdra: Mary Lynn Carr; Alwena H Jones;

Stanley W Griffiths; Brenda Roberts; Nia W Jones; Gwilym A Owen.

Adran Ieunectid: (FAW Certificates) Catherine G Williams; Patricia Turner; Bryn Ll Roberts; Bryn C Thomas; Neil Owen; Dylan Parry; Dorothy M Hughes; Trystan Thomas; M Carr.

Dymuna Cadets St Iolan, Llanberis ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at y Bingo a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Ngwesty'r Dolbadarn, yn enwedig i holl berchnogion siopau'r pentref a gyfrannodd.

Hefyd buasent yn hoffi diolch i Bwyllgor adloniant Plaid Cymru am eu rhodd ariannol tuag at y mudiad. Diolch yn fawr.

CYDYMDEIMLWN â Buddug a Kyffin Hughes a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, sef Mrs Enid Prydderch, hefyd i'w chwirydd a chwirydd-yng-nghyfraith i gyd.

CYDYMDEIMLWN hefyd â Sandra a Margaret a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli tad;

— â Bryn ac Olwen a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli mam, sef Mrs Betty Rees Evans gynt o Ffordd Capel Coch;

— ac â Mr Wilff Jones a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli chwaer. LLONGYFARCHIADAU i John Ifor a Caroline ar achlysur eu dyweddïad;

— i Andrea Mary Jones, Dol Elidir ar achlysur ei phen-blwydd yn un ar hugain oed;

— i Mrs Jenny Parry, 6 York Terrace ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed;

— i Gilbert ac Elizabeth Jones, Cambrian Terrace ar achlysur eu Priodas Arian.

GWELLHAD: Dymunwn wellhad buan i'r rhai canlynol:

Mrs Betty Hughes, Stryd yr Wyddfa; Haydn Watkinson sydd wedi brifo; Mrs Liz Pitts, Dol Elidir; Mrs Meira Bryn Hughes, Stryd Goodman; Jean Roberts, Maes Padarn; Mr Tommy V Roberts, Stryd Charlotte; Mrs Memie Parry; Mrs Eileen Roberts.

LLONGYFARCHIADAU i Ian Lloyd Hughes, 1 Coed y Glyn sydd wedi bod am dreialon pêldroed gyda Sheffield Wednesday yn ddiweddar. Mae'r clwb wedi gwahodd Ian yn ôl yno ym mis Awst.

DIOLCH: Dymuna Mrs Jenny Parry, 6 York Terrace ddiolch i'w teulu a'i ffrindiau am y llw cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed ar Fawrth 24ain. Diolch yn fawr i bawb.

CYDYMDEIMLWN â Mr Edgar Williams a'r teulu oll yn eu

profedigaeth o golli ei fam, Mrs Gwen Williams o Lanrug;

— hefyd Mrs Agnes Williams, Stryd Charlotte a'r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith;

— ac hefyd â theulu Mr Llew Batten, gynt o Maes Padarn.

DIOLCH: Dymuna T H Jones, Rallt Goch ddiolch yn ddiffuant i'w berthnasau a'i gyfeillion am bob arwydd o gonsyrn a ddangoswyd tuag ato yn ystod ei gyfnod yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl ac wedi dod adref. Diolch yn arbennig am bob ymweliad.

Dyddiader y Mis

MAI

1. Llun: Gwyl Fai: YR ARDAL: Gwyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990 yng Nglynllifon, 1.00 tan 5.00 o'r gloch.

2. Mawrth: PENISARWAUN: Pwyllgor y Neuadd DEINIOLEN: Undeb y Mamau, 7.00

3. Mercher: BETHEL: Yr Urdd, noson o chwaraeon ar y Cae Chwarae.

4. Iau: PENISARWAUN: Yr Urdd, Mabolgampau LLANRUG: Undeb y Mamau yn Hafan Elan.

5. Gwener: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band am 8.00 o'r gloch. CYNGOR GWANWYN SEFYDLIAD Y MERCHED yng Nghricieth WAUNFAWR: Clwb Gwryfai, Noson Goffi.

8. Llun: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched.

DEINIOLEN: Festri Ebenezer - Gwasanaeth arbennig i lansio wythnos Cymorth Cristnogol.

9. Mawrth: DINORWIG: Cyfarfod i drefnu 'Hwyl Haf', yn y Ganolfan am 7.00 o'r gloch.

LLANRUG: Merched y Wawr, cyfarfod blynyddol a 'Mynd ar Daith' yng nghmni Mary Vaughan Jones.

12. Gwener: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band am 8.00 o'r gloch.

LLANBERIS: Te yr Henoed.

14. Sul: LLANRUG: Cyfarfod Pregethu gyda'r Parch Meirion Lloyd Davies, Pwllheli.

15. Llun: DEINIOLEN: Merched y Wawr.

BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched.

DINORWIG: Cyfarfod yn y Ganolfan i sefydlu Clwb Cerdded, am 7.00 o'r gloch.

YR ARDAL: Cychwyn wythnos Cymorth Cristnogol — casgliad o dy i dy.

EGLWYS LLANDINORWIG: Cynhadledd Canghennau Undeb y Mamau Deoniaeth Arfon yn Eglwys Crist am 7.00 o'r gloch.

17. Mercher: LLANRUG: Plaid Cymru, Helfa Drysor.

18. Iau: LLANRUG: Pwyllgor Apêl yr Urdd 1990. Yn yr ysgol am 7.00 o'r gloch.

PENISARWAUN: Ffair Wanwyn at yr Eisteddfod Bentref

19. Gwener: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band am 8.00 o'r gloch.


20. Sadwrn: PENISARWAUN: Pnawn o hwyl wedi ei drefnu gan Bwyllgor y Neuadd ar gae Perthi am 1.00 o'r gloch

21. Sul: DINORWIG: Eglwys St Mair. Gwasanaeth Cymun Teuluol am 10.00 y bore.

26. Gwener: LLANBERIS: Te yr Henoed

DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band am 8.00 o'r gloch.

Am bob math o
WYDR wedi ei
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD
cysylltwch â
Barrys
GLASS



Camelot
PENSIARWAUN
Ffôn: Llanberis 870486

W.H. JONES
TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
FFÔN:
LLANBERIS 871470
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS
* Gwasanaeth 7 diwrnod
* O ddrws i ddrws
* Control Deuol

D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394

CHWARAEON

MARATHON LLUNDAIN

Bore Sul, a minnau'n ceisio rhoi trefn ar gynnwys y dudalen ôl. Mae'r hogaia 'cw yn gwylio'r ras fawr ar y teledu yn yr ystafell arall, ac mae un ohonynt yn gweiddi ei fod yn meddwl fod "tad Mared Sutherland" wedi gwibio ar draws y sgrin. Hon yw'r bumed i Graham (a'r olaf yn ôl Helen ei wraig!) ac mae'n un o rhyw hanner dwsin o ardal yr Eco sy'n cymeryd rhan.

Cefais air â Gwilym Davies o Lanrug cyn iddo deithio i Lundain ddydd Gwener diwethaf, er mwyn ceisio deall pam fod 30 mil o bobl call yn fodlon rhedeg 26 milltir a 385 llath ar fore Sul drwy strydoedd prifddinas Lloegr.

Mae Gwil yn 37 mlwydd oed ac yn rhedeg ers pedair blynedd. Dydi o erioed yn ei fywyd wedi rhedeg mwy nag ugain milltir, a daw ei brofiad o rasio o Ogledd Cymru ar yr hanner marathon, rasmus 10 a 6 milltir ac wrth gwrs, Ras yr Wyddfa. Mae'n gobeithio cwblhau'r cwrs mewn 3 awr a hanner, h.y. os na ddaw'r cramp i amharu arno!



Gwilym Davies

Ymhlith eraill o'r ardal sydd yn cystadlu y mae Mr a Mrs Phil Edwards o Ddeiniolen, John Owen Hughes (yn rhedeg i godi arian i Antur Waunfawr), John Williams a Jack Clegg.

Pob lwc iddyn nhw ddweda i.

Yn y bedwaredd ganrif bu brwydr yng Ngroeg yn y rhan o'r

wlad ei gelwir Marathon, rhwng byddinoedd Persia ac Athens. Yr Atheniaid fu'n fuddugol, ac fe orchmynwyd i un o'u milwyr redeg adref i Athens â'r newydd da. Fe wnaeth hynny, pellter o 26 milltir, adroddodd ei stori a disgynodd yn farw o flinder.

Mabwysiadwyd ras Marathon fel rhan o'r gemau Olympaidd yn 1896 i goffau'r digwyddiad ac fel ras o 26 milltir yr adnabyddid hi, nes i'r gemau ddod i Lundain yn 1908. Gosodwyd cwrs oedd i redeg o Gastell Windsor i'r White City, ond er mwyn i'r ras orffen yn union gyferbyn â'i 'royal box' hi yn y Stadiwm, fe fynnodd y Frenhines Alexandra fod 385 llath yn cael ei ychwanegu at y pellter.

Rwy'n siwr fod pawb wedi gweld lluniau o'r Eidalwr bach, druan hwnnw. Dorando Pietri, a ddaeth yn gyntaf i'r stadiwm a'i goesau'n plygu dan y straen. Fe ymlwybrodd yn sigledig dros y llathenni ychwanegol, gan gael ei helpu'n ôl ar ei draed fwy nag unwaith, ac yna daeth Jim Hines o'r Unol Daleithiau a'i guro.

Ie, ras fel yna ydi'r marathon.

Dewcs, rwy'n siwr fod y sylwebydd yna ar y bocs wedi dweud mai dyn o'r enw Douglas Wacky Hero o Kenya sydd wedi ennill, a hynny mewn 2 awr a 9 munud. Mae gan Gwil tua 10 milltir i fynd.

CRICED

Mae'n rhyfedd o beth ond y mae bron cymaint o drigolion yr ardal yn chwarae criced cynghreiriol ag sy'n chwarae pêl-droed – er nad oes clwb criced yn yr un o'r pentrefi. Yn rhyfeddach fyth y mae cysylltiad ag Ysgol Brynrefail yn gyffredin i'r holl chwaraewyr hyn sy'n edrych ymlaen yn frwdfrydig at y tymor sy'n dechrau ddiwedd Ebrill, i gael chwarae dros glwb Fron Dinas, sydd ar gyrion Bontnewydd.

Mae Harri Jones, Dic Parry a Dafydd Evans yn athrawon yn yr ysgol, ac Emyr Price o Fethel yn gyn-athro yno. Bydd dau o ddisgyblion y 6ed yn chwarae'n rheolaidd i'r tîm cyntaf neu'r ail, sef Alan Williams a Chriss Tilston. Mae Chris, gyda llaw, wedi ei ddewis i chwarae i dîm bechgyn hyn Ysgolion Gwynedd yn erbyn Dyfed yn Llanelli ar Ebrill 24ain. Mae'n fowliwr cyflym addawol dros ben. Da iawn, Chris.

Ymhlith y cyn-ddisgyblion sy'n chwarae drs y clwb y mae dau yn cyd chwarae yn yr un tîm â'u meibion, sef Arwel a Dafydd Jones a Gwilym ac Alan Williams. Ymhlith y cyn-ddisgyblion eraill ar y llyfrau, mae Steven Owen, Gwyn Morris, Michael Roberts, Carl Wannop, David Brailsford,

Dylan Edwin Jones, Gareth Williams, Rheon Larzen, Mark Parry, Neil Roberts, A Lambrecht a lolo Morgan.

I'r tîm ieuencid y mae'r canlynol yn chwarae, a phob un yn ddisgybl yn yr ysgol, sef Iestyn Roberts, Barry Roberts, Chris Hobby, Mark Williams, Alan Pritchard, Ian Parry, Nicky Cropper, David Gwyn Jones ac Edward Rogers.



Chris Tilson

PÊL-DROED Y GYNGHRAIR

Bydd y tymor pêl-droed drosodd cyn y daw'r rhifyn nesaf o'r Eco o'i wely, ac mae'n weddol sicr bellach mai tîm cyntaf Llanberis fydd y mwyaf llwyddiannus o dimau'r ardal. Y mae gobaith da ganddynt o ddod yn ail yn nhabl Cyngghair Gwynedd, ac hefyd byddant yn chwarae Llangefni ar yr Ofal ar Fai 10fed yn ffeinal Cwpan y Gynghair (Llanbêr yw'r deiliaid, hwy a'i henillodd y llynedd a'r flwyddyn cynt). Yn y Gynghair bydd yn rhaid i Llangefni, sydd ar y copa, sicrhau 4 pwynt o'r 4 gêm sy'n weddill er mwyn sicrhau'r bencampwriaeth, a bydd yn rhaid i'r Darrans gael 7 pwynt allan o'u 6 gêm er mwyn bod yn saff o'r ail safle. Y mae gobaith da y bydd ail dîm Llanrug yn ennill Cyngghair Sain.

Yn ngharfan Llanberis mae Nigel Phillips, R John Williams, Gwyndaf Jones, Ray Harding, Iwan Evans, John Williams, Gareth Jones, Iolo Evans, Terence Griffiths, Steven Williams, Derfel Roberts, Jason Roberts a Dilwyn Roberts. Yn y llun hefyd gweler Iwan Williams y rheolwr. Y mae Emlyn Roberts a Dilwyn Morris wedi eu hanafu ar hyn o bryd.



BOWLIO DAN DO (Short Mat Bowling)

Mae Clwb Bowlio Waunfawr erbyn hyn wedi hen sefydlu ei hun yng Nghynghair Gwynedd o'r gêm bleserus yma. Hyd yma nid oes yr un Clwb arall yn ardal yr Eco (rwy'n deall fod rhai aelodau wedi bod yn chwarae yn Neiniolen am gyfnod ond nid wyf yn gwybod beth sy'n digwydd yno 'rwan). Tybed a yw'n bosib codi diddordeb rhai ohonoch – yn hen ac ieuanc – i ffurfio clwb yn eich ardal? Rydym ni yn y Waun yn cael pleser mawr o chwarae'r gêm ac mae'r Clwb yn cynyddu. Mae hon yn gêm nad yw'n diybnu ar y tywydd o gwbl, mae pawb yn cael pleser dan do er gwaethaf y tywydd tu allan – ac mae hyn yn bwysig iawn yn y tywydd sâl rydym ni yn ei gael yn

aml! Yr unig beth sy'n angenrheidiol cyn y gallwch ddechrau ffurfio clwb yw fod ganddoch neuadd neu ystafell ddigon hir i gymryd mat o 40-45 troedfedd o hyd. Mae'r Felinheli eisoes wedi dechrau Clwb ers rhyw chwe mis ac erbyn hyn maent hwythau yn dod ymlaen yn dda iawn. Os oes rhywun â diddordeb i weld sut mae'r gêm yn cael ei chwarae, mae croeso i chwi ddod i'r Ganolfan yn y Waunfawr rhwy bawn Mawrth o 2-4 neu dydd Iau o 2-4 neu o 7-9 y nos.

Os ydych am fanylion pellach ynglyn â sut i fynd ati i ffurfio clwb buaswn yn falch o'ch helpu. Cysylltwch â Mrs Catherine A Jones: Ffôn Waunfawr 242 (Ysgrifennydd y Clwb)



Rhai o'r bowlwyr fu'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth yn ddiweddar.

PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Gan fod y tywydd wedi bod mor ansefydlog, gwael iawn fu'r helfa o'r afonydd hyd yma, er fod y stori'n hollol wahanol ar y llynoedd. Daeth y brithyll at y bluen yn barod iawn ar Padarn a Cwellyn, a deallaf fod Howard Jones o Gaernarfon wedi bod yn llwyddiannus iawn yno.